# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 312

Hydref 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

## AurWniadau

Bu aelodau 'Aur Wniadau' — Cymdeithas Brodwaith Cymru, Cangen y Canolbarth yn ddiwyd iawn am fisoedd yn paratoi a pwytho'r cwilt Celtaidd ar gyfer ei arddangos ar stondin y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni.

Hefyd, bu chwech o'r aelodau yn pwytho rhan o'r "gwaith aur" a ddefnyddiwyd ar wisg newydd yr Archdderwydd, Dic Jones.

Mae'r aelodau yn cwrdd yn ystod tymor y Gaeaf yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre.

**LLUN: Eric Hall**





**Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Delyth Mari Thomas, merch hynaf Dafydd a Val Thomas, Bysaleg, Penrhyn-coch, ar ei phriodas â Owain Llwyd o ardal Bangor. Priododd y ddau ar 20fed Medi yng Ngwesty'r Parc yng Nghaerdydd. Bu y ddau yng Ngholeg y Normal, Bangor yr un pryd yn y 90au ac wedi cwrdd eto tra'n gweithio i'r un cwmni (Barcud-Derwen) yng Nghaerdydd. Mae'r ddau wedi ymsefydlu bellach yn ardal Treganna yn y ddinas.**



**Beryl Hughes (chwith) a Brenda Jones gyda'r tlws 'Gwobr anrhydedd Ceredigion 2008" a enillodd - gweler t.7**

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 312 | Hydref 2008

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Aled Griffiths, 18 Dôl Helyg, Penrhyn-coch ☎ 828176
griffiths95@googlemail.com

**CASLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **TACHWEDD 6** A **TACHWEDD 7** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **TACHWEDD 20**

**HYDREF 15** Nos Fercher Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm. Croeso Cynnes

**HYDREF 17** Nos Wener Darlith agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn gan yr Arglwydd Elystan-Morgan am 7.30 o'r gloch

**HYDREF 18** Nos Sadwrn Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid Elw at Eisteddfod yr Urdd 2010 Tocynnau £8.50 o Siop Inc neu Siop y Pethe neu o wefan y Pafiliwn www.pafiliwnbont.co.uk neu dros y ffôn 01974 831 635.

**HYDREF 23** Nos Iau Wynne Melville Jones "Troeon yr yrta" Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30pm.

**HYDREF 24** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor.

**HYDREF 25** Bore Sadwrn Ffair Hydref yn Neuadd y Borth o 10yb hyd 2 y pnawn. Pris llogi bwrdd / safle fydd £5. Cysylltwch â Rosa Davies 871331 am ragor o fanylion. Pwyllgor Apel Llandre, Dôl-y-bont a'r Borth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010.

**HYDREF 24** Nos Wener Twmpath Dawns gydag Erwyd Howells yng Ngwesty'r Hafod, Pontarfynach Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010

**TACHWEDD 3** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ail agor ar ôl hanner tymor

**TACHWEDD 5** Nos Fercher Tachwedd 5ed. Pwyllgor blynyddol Sioe Capel Bangor a'r Cylch yn Neuadd yr Eglwys am 7.30y.h. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r Pwyllgor presennol.

**TACHWEDD 6-8** Nosweithiau Iau – Sadwrn Bara Caws yn cyflwyno Llyfr mawr y plant – sioe gerdd i'r teulu yng Nghanolfan y Celfyddydau am 1.00 & 7.30 (Iau), 10.00 a 1.30 (Gwener), 10 a 7.00 (Sadwrn).

**TACHWEDD 7** Nos Wener Noson gymdeithasol y Tincer yn Neuadd y Penrhyn am 7.30pm.

**TACHWEDD 7** Nos Wener 'Ambell atgof Gwleidyddol' yr Arglwydd Elystan-Morgan yn Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth am 5.30 Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig Mynediad am ddim trwy docyn – ffôn 632 548 www.llgc.org.uk/drwm.

**TACHWEDD 7** Nos Wener Cyngerdd - Telynores Eira Lynn Jones; Unawdydd Glenys Jenkins; Cor Ysgol Pen-llwyn yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor 7.30 pm

**TACHWEDD 14** Nos Wener Cyfarfod cyhoeddus dan nawdd Cangen Plaid Cymru Bro Dafydd yn trafod 'Tai fforddiadwy' gyda Jocelyn Davies AC (Gweinidog Tai) ac Elin Jones AC (Gweinidog Materion Gwledig) yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30pm.

**TACHWEDD 17** Nos Lun Syr Emyr Jones Parry (cyn-gynrychiolydd Prydain yn y Cenhedloedd Unedig a Llywydd Prifysgol Cymru Aberystwyth) yn siarad am Hawliau Dynol a'r Cenhedloedd Unedig. Noson Dweud ei Ddweud yn y Morlan am 7.30pm.

**TACHWEDD 19** Nos Fercher Sgwrs gan yr awdur Lloyd Jones 'Paradwys iddo prydaf ... pedwar pryf yn profi picnic' Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30 Lloyd Jones.

**TACHWEDD 19** Nos Fercher Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm. Croeso Cynnes.

**TACHWEDD 20** Nos Iau Cledwyn Fychan 'Bleiddiaid yng Nghymru" Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30pm.


Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir *Y Tincer* yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor *Y Tincer*.
Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn


| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

## RHODD

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Dilwyn a Carys Jones, Tal-y-bont £20**

**Annwyl Olygydd**
Da gennyf ddarllen am lwyddiant Lisa Saycell, Bryn Briallu, Goginan, yn *Y Tincer* mis Medi, a bod ei phapur bro wedi ei chydnabod.

Siom enfawr a diflas oedd y sylwebaeth o'r brif gylch yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd eleni, pan enillodd Lisa ar ei chaseg Toyside Lucky Lowri. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth cefndir gan S4C i'r rhai oedd yn gwylio gartref. Ac ni welodd y *Cambrian News* ychwaith yn dda i roi unrhyw sylw i ferch ifanc leol yn ennill ym mhrif sioe y wlad!

Diolch i ohebydd Goginan, a da iawn *Y Tincer.*

Yn gywir iawn,
Fred Williams, Troedrhiwgoch, Ponterwyd

**ytincer@googlemail.com**

## To Bach ar lythrennau Cymraeg

Os rhowch 'to bach' i mewn i Google, fe ddaw enw rhaglen i'r golwg ac fe ellir ei dadlwytho am ddim i'ch peiriant.

Y cwbl sydd angen wedyn yw defnyddio y botwm 'AltGr' wrth roi llythyren i mewn — boed honno'n llythyren fach neu fawr, ac fe gewch y fersiwn iawn. Mae'n ffordd well na'r lleill gan ei bod yn gweithio yn Word, ac mewn llythyrau e-bost a hefyd yn Excel. Gyda llaw mae'n gweithio pa un ai yn defnyddio 'Caps Lock' neu yn cael y lythyren fawr heb ddefnyddio 'Caps Lock'.

## Lluniau i'r Tincer

Derbyniwn fwy a mwy o luniau trwy e-bost neu ar ddisg neu CD-ROM, a chroesawn hynny. Mae'r un croeso i lun 'hen ffasiwn' — ar ffurf copi caled. Mae cais, fodd bynnag, lle mae'r llun yn un digidol, ei fod o ansawdd uchel (ni fyddai llun dynnwyd ar ffôn symudol, er enghraifft, yn addas) a'i fod yn cael ei yrru trwy e-bost neu ar ddisg/CD-ROM. Nid yw lluniau o'r math sydd wedi eu printio allan ar bapur yn addas, ac ni ddylid ysgrifennu mewn beiro neu ben ffelt ar gefn lluniau o'r math.

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £10 (£20 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Medi 2008.
**£15** (Rhif 147) Aneurin Rowlands, Rhos-goch, Capel Madog.
**£10** (Rhif 99) Lynwen Jenkins, Y Garej, Penrhyn-coch.
**£5** (Rhif 57) Eirwen Sedgwick, Rheidol House, Capel Bangor.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.
Am restr o Gyfeillion 2008 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2008.pdf




HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

# Y BORTH

## Marwolaeth

Trist yw clywed am farwolaeth Miss Cecily Toy, gynt o Morolwg, Y Stryd Fawr, a fu farw yng Nghartref Bodlondeb, Aberystwyth, ar y 7fed o Awst, yn 97 oed.

Yn wreiddiol o Birmingham, fe gadwodd, gyda'i dwy chwaer, siop losin, "The Bon-bon", yn Aberystwyth am rai blynyddoedd, cyn symud i'r Borth ac agor siop anrhegion mân. Daeth yn aelod ffyddlon

a gweithgar o Eglwys Santes Fair, Seren y Môr. Ar ôl marwolaeth ei chwiorydd, fe ddychwelodd i Aberystwyth, i Glyn Padarn ac wedyn i'r Hafan, cyn cael ei symud i Fodlondeb, lle derbyniodd bob ofal a charedigrwydd yn ei dyddiau olaf.

Cynhaliwyd Offeren Y Meirw yn Eglwys y Santes Gwenfrewi, Aberystwyth, ar y 14eg o Awst, yn cael ei ddilyn gan gladdedigaeth ym mynwent y dref.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gary a Catherine Jones, Fferyllfa'r Borth, ar enedigaeth eu mab, Matthew Flynn. Pob dymuniad da i'r teulu.

## Pen blwydd

Llongyfarchiadau gwresog i Miss.Gwen Lloyd, Frondirion, ar gyrraedd yr oedran teg o 95 oed ar Fedi'r 20fed. Dathlodd Gwen ei phen blwydd arbennig yng nghwmni ei theulu a nifer o ffrindiau yng Nghaffi newydd Siop Nisa, oedd wedi ei drefnu gan ei brawd Dirk. Daeth ffrindiau agos i fyny oAbergwaun, a dwy aelod o'r teulu o'r Iseldiroedd i wneud yr achlysur yn un hapus a hwyliog.



Dirk Lloyd yn cynorthwyo ei chwaer Gwen i dorri y deisen Pen blwydd.

## Clwb yr Henoed

Mark Williams, A.S. oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod cyntaf Clwb yr Henoed ar ôl seibiant yr haf. Betty Horton oedd y Cadeirydd yn Neuadd Gymunedol Y Borth, ddydd Iau, 11 Medi. Siaradodd Mr Williams yn ddifyr ac yn ddiddorol am ei yrfa fel Ysgofeistr ym Mrycheiniog ac am y tro ar fyd a ddaeth gyda'i etholiad fel A.S. yn San Steffan dros Sir Ceredigion. Diolchwyd iddo gan Betty Horton.

Diwrnod braf o hydref a gafwyd pan deithiodd llond bws o aelodau i Lyn Efyrnwy, ddydd Iau, 25 Medi. Mwynhawyd stop coffi yn "Brigand's Inn", Mallwyd, a chinio ysgafn yng Nghanolfan Efyrnwy, lle manteisiwyd ar y cyfle i grwydro glannoedd y Llyn a'r argae. Ar y ffordd adref, galwyd heibio i Felin Meirion, Dinas Mawddwy, i siopa ac i gael te. Diolchir yn fawr i Joy Cook a drefnodd y daith.

## Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod SYM Y Borth yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 3 Medi. Margaret Griffiths oedd yn y Gadair. Mrs Patricia Griffiths oedd y wraig wadd, ac fe siaradodd gyda theimlad am y problemau enfawr y mae rhaid eu hwynebu pan yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin gartref neu sydd wedi troi at droseddu. Diolchwyd iddi gan Ann Newby.

Dydd Mercher, 17 Medi, treuliwyd prynhawn difyrrus a chreadigol yng nghwmni Helen Rees, Glandylan, Ynys-las, cartref "Blue Island Ceramics". Clywsom am yrfa Helen fel artist a chrochenydd, a chael amser i edmygu'r potiau a'r platiau a arddangosid yn ei stiwdio, cyn gadael yr oedd rhaid inni roi cynnig ar baentio ein potiau ein hunain. Er gwaethaf cryn diffyg hyder ar y cychwyn, erbyn diwedd y prynhawn roedd pawb yn falch iawn o'u hymdrechion, gydag amrywiaeth o blatiau, potiau ac addurniadau yn barod i fynd i'r ffwrn. Yn hollol annisgwyl, roedd Helen wedi paratoi gwledd



Taith y Gymdeithas Gymraeg ym Mehefin - cafwyd adroddiad yn rhifyn Medi.



Y tri Gweinidog yn mwynhau y danteithion wedi'r oedfa.

o frechdanau a theisennau ar ein cyfer. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Elizabeth Evans.

Betty Horton ofalodd am y noson, nos Fercher, 3 Hydref, gan siarad am gyd-ddigwyddiadau hanesyddol, rhyfedd ac anesboniadwy eu natur. Diolchwyd iddi gan Ann Newby. Gan gyffwrdd â'r un pwnc, fe ddarllenodd Alicia Moss stori fer, wir, o'i gwaith ei hunan. Diolchwyd iddi gan Margaret Griffiths, Cadeirydd.

Diolch yn fawr unwaith eto i Helen Rees, oedd mor garedig a galw heibio i ddychwelyd cynhyrchion terfynol ein prynhawn yn "Blue Island Ceramics", a phopeth wedi'i danio a'i wydro.

## Diolchgarwch

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yng Nghapel y Gerlan Nos Wener 26 Medi o dan lywyddiaeth y Parchedig Wyn Morris. Y Pregethwr Gwadd oedd y Parchedig J.E.Wynne Davies, Aberystwyth, a chafwyd ganddo bregeth afaelgar a chofiadwy, gyda thema'r neges yn gweddu i'r achlysur.

Yr Organydd oedd Eurgain Rowlands, ac roedd y blodau a'r fasged o lysiau tymhorol wedi eu gosod gan Elin Hefin ac yn ychwanegiad at naws yr oedfa.

Daeth y casgliad, a wnaed tuag ag at Cymorth Cristnogol, i'r swm o £47.

Trodd y gynulleidfa werthfawrogol i ymgynnull yn y festri i fwynhau gwledd arall oedd wedi ei pharatoi gan Margaret Griffiths, Ceffyl y Môr, ar eu cyfer. Talwyd diolch iddi gan y Parchedig Wyn Morris am ei pharodrwydd bob amser ac am swper flasus.

## Salwch

Dymuniadau gorau i Ted Davies, Ffordd Clarach, am wellhad llwyr pan fydd wedi gorffen ei driniaeth yn Ysbyty Singleton. Bydd yn braf eich gweld yn ôl eto ar ben ysgol yn paentio tai pentrefwyr y Borth Ted.

# LLANDRE



### Symud Tŷ

Dymuniadau gorau i Buddug Thomas, Troed y Bryn, yn ei chartref newydd yn Afallen Deg. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn.

Hefyd i Mr a Mrs Fields, Lôn Glanfred, sydd wedi symud i Ynys-las.

### Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Calendr 2009 - cysylltwch â Betty Williams 828335; Doreen Haggar 820314 neu Avril Thomas 820798

### Ymddeoliad Hapus

Dymunwn ymddeoliad hapus i Ceri Davies, Tanyreithin. Bu Ceri yn gweithio ym Mhwerdy Cwmrheidol am nifer o flynyddoedd.



Glyn a Margaret Williams, Bryngolau yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt gyda'i gor-wyr a gor-wyres, Osian a Ffion.

### Priodas yn Rehoboth, Taliesin

Ar ddydd Sadwrn, Medi'r 13 yng Nghapel Rehoboth, Taliesin priodwyd Sioned Menai Jones, merch hynaf Dilwyn a Carys Jones, Tal-y-bont ac Alun Tobias, mab ieuengaf John ac Eunice Tobias, Capel Dewi, Caerfyrddin. Mae Sioned yn wyres i'r diweddar William Llewelyn a Marion Edwards, Bron Rhiwel, Llandre. Pob dymuniad da i'r ddau.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â David ac Eileen Griffiths, a'r teulu, Maeshenllan, ar farwolaeth mam David yng Nghartref Tregerddan ar Fedi 26.

### Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Ruth Davies, Lightwoods yn ei arholiadau lefel A, a phob dymuniad da yn y Coleg yng Nghaer.

### Diolch

Dymuna Glyn a Margaret Williams, Bryngolau, ddiolch yn fawr i bawb a anfonodd gardiau, negeseuon ac anrhegion ar achlysur dathlu eu Priodas Ddiemwnt.







Roedd Taith Gerdded a Barbeciw Pwyllgor Apêl Llandre, Dol-y-bont a'r Borth ar gyfer Urdd 2010 a gynhaliwyd yn Glanleri ym Medi yn llwyddiant ysgubol ac yn noson hwyliog. Codwyd mwy na £2000. Diolch i bawb am eu cefnogaeth frwd ac yn arbennig i Fanc Barclays ac i deulu Glanleri.

EISTEDDFOD CEREDIGION 2010
PWYLLGOR APÊL
LLANDRE, BORTH A DÔL-Y-BONT

Noson Gemwaith 'Tlws'

**TACHWEDD 20FED**

RHWNG 7.30 A 9.30
Bancyreithin, Llandre

Tocynnau £3, yn cynnwys gwin a lluniaeth ysgafn
ar gael o flaen llaw drwy ffonio Meinir (820467), Sara (822029) neu Nia (820419).
Cyfle gwych i brynu anrhegion Nadolig.

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

Mae llawer dinas dlos, Fu'n gwrando ar y clychau. Yn canu gyda'r nos. O dan y môr a'r dannau.
oriel
Tir a Môr
gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwyddedd
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

## Suliau Tachwedd

**Y Garn**
**www.capelygarn.org**
**10 a 5**
**2** J.E. Wynne Davies
**9** Tudor Davies Bugail
**16** Bugail
**23** Stephen Morgan
**30** J.R. Jenkins

**Noddfa**
**2** 10.00 Gweinidog
**9** 2.00 Parch. Meirion Morris
**16** 10.00 Mr Raymond Davies
**23** 10.00 Gweinidog. Cymundeb
**30** Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

## Genedigaeth

Ar 18 Medi yn Nercwys, yr Wyddgrug, ganwyd Rhys Ceiro, mab bach i Bethan ac Osian, a brawd bach i Gruff Ceiro ac Ifan Ceiro, a ŵyr i Vernon a Dilys Jones, Gaerwen. Bydd amser prysur o flaen dat-cu a mam-gu gyda saith o wyrion a wyresau rhyngddynt.

## Cydymdeimlad

Cafodd Janet Evans, 95 Bryncastell, golled drom dros yr haf wrth golli mam a thad. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Cydymdeimlir a Sian, Tegwyn, Meinir a Cerys Evans, 43 Maes Afallen, ar farwolaeth ewythr i Sian yn Felin-fach.

## Priodas Ruddem

Llongyfarchwn Tom a Dilys Jones, 99 Bryncastell, a ddathlodd eu priodas ruddem ar 14 Medi yng nghwmni'r teulu a dymunwn iechyd gwell i Dilys.

## Pen blwydd arbennig

Cyfarchion pen blwydd arbennig i chwi,
Ar gyrraedd 100 oed yn Tachwedd eleni.
Mi ddaw atgofion weithiau
Yn felys iawn i'm co.
Am yr amser difyr dreulioch
Pan yn byw yma yn ein bro.
Rwy'n siwr y bydd na ddathlu
Ar yr aelwyd gyda'ch teulu.
Gobeithio y cewch chi ddiwrnod i ryfeddu,
Llongyfarchiadau a phob bendith
Modryb V.
**Mairwen a'r teulu oll**

Bydd Vi Jones, gynt o 11 Tregerddan yn 100 oed ar yr 8fed o Dachwedd.



Tîm Hoci Menywod Bow Street 2008 / 2009 sydd yn chwarae yng Nghyngrair Hoci Dyffryn Teifi pob dydd Sadwrn. Noddir y Gynghrair eleni gan Mansel Griffiths a'i Fab. Mae'r tymor wedi dechrau yn addawol iawn i'r tîm trwy cael sgôr gyfartal o 6-6 mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Tywyn ac yna ennill 10-0 yn erbyn Tregaron. Yn y llun mae - (cefn, chwith i'r dde) Heledd Gwyndaf, Meinir Jones (trysoryddes), Cerys Humphreys (hyfforddwraig), Rhian Cory, Jo Wallace, Hayley Rees, Carol Lewis, Sophie Griffiths, Karen Price, Holly Morgan, Elin Jones, Ceri Morgan. (blaen, chwith i'r dde) Alaw Morgan, Becca Williams, Ffion Lewis (capten), Ceryl Lewis, Rachel Baker (is-gapten), Hannah Jones ac Ella Fletcher. Yn y llun hefyd mae cefnogwyr ifanc y tîm!! Rydym yn ymarfer pob nos Fercher ar astro y Brifysgol o 5.30-6.30 os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno â ni.



Yr Arglwydd Elystan Morgan yn agor y Te Prynhawn ac yn dadorchuddio plac yn y Porth y tu allan i Gartref Tregerddan er cof am y ddiweddar Fonesig Alwen a fu mor weithgar dros y Cartref.

## Cymdeithas Chwiorydd Y Garn

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch y Chwiorydd ar 1 Hydref. Lluniwyd a llywyddwyd y gwasanaeth gan y Parchg. Judith Morris. Cymerwyd rhan gan Gwenan Price, Kathleen Lewis, Nest Davies, Elizabeth Jones, Shân Hayward, Meinir Roberts, Meinir Lowry, Bethan Jones, Elen Evans, Beryl Hughes a Gwenda Edwards. Y casglyddion



Ar fore Sul, 29 Mehefin yng nghapel Noddfa, Bow Street, bedyddiwyd Elin, merch Anwen Pierce a Hywel Williams, 46 Bryncastell. Y Parch. Richard Lewis oedd yn gwasanaethu, gydag Arwel George wrth yr organ.

oedd Ray Evans ac Elina Davies a chyfeiliwyd gan Vera Lloyd. Gan fod 1 Hydref yn ddiwrnod arbennig i'r henoed cyflwynwyd y casgliad i "Age Concern". Anfonwyd ein cofion at Gwenda James sydd wedi bod yn yr ysbyty a chydymdeimlwyd â Nest Davies, Morfudd Clarke a theulu E.J.Morgan a gollodd anwyliaid. Diolchodd Gwenda Edwards i bawb a gymerodd ran ac i'r Parchedig Judith Morris am wasanaeth yn llawn defosiwn a diolchgarwch i Dduw am ei holl roddion inni.

### Merched y Wawr

Nos Lun, Medi 8fed cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf, braf oedd cwrdd â phawb unwaith eto, roedd hyn yn amlwg yn ôl y clonc! Croesawodd ein llywydd, Lisa Davies, bawb i'r cyfarfod. Ein gwraig wadd am y noson oedd Anne Till. Roedd Anne wedi bod yn cerdded yn Nepal a chafwyd ei hynt a'i helynt yn ymdopi â'r wlad ryfeddol yma, gyda lluniau gwych a sgwrs llawn ffeithiau a digon o hiwmor. Mwynhawyd y noson yn fawr. I gloi y noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi'i baratoi gan y pwyllgor. Mae'r gangen yn cyfarfod ar yr ail nos Lun o bob mis yn y neuadd am 7.30. Croeso i unrhyw un i ymuno â ni, ar Hydref 13eg fydd y cyfarfod nesaf gyda parti *Virgin V.*

Cafwyd gwahoddiad i ymuno â Changen Tal-y-bont ar Fedi y 15fed i glywed Debra Griffiths o Aberteifi yn sôn am ei phrofiad ar y rhaglen deledu *Coal House*. Braf oedd cael bod yng nghwmni llond neuadd o Ferched y Wawr yn gwrando ar hiwmor iach Debra a chael gwledd o fwyd i ddilyn.

Cydymdeimlwn â Lisa Davies, ein llywydd, ar golli ei chwaer Anne, hefyd dymunwn wellhad buan i Annetta Morgan sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Pen blwydd hapus

Dymunwn ben blwydd hapus yn ddeunaw oed i Gwyneth Keyworth, Dernol, Y Lôn Groes. Treuliodd Gwyneth ei gwyliau haf yn Llundain yn cymryd rhan yng nghynyrchiad Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Prydain o'r comedi *The Sick Room* yn y Soho Theatre. Cafodd y cynyrchiad sylwadau da, gyda'r *Times* yn rhoi tair seren iddo. Llongyfarchiadau i Gwyneth a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

### Diolch

Hoffai Brenda Jones, Glyn-Teg, ddiolch o galon am y cardiau, galwadau ffôn a geiriau caredig a dderbyniodd ar ôl derbyn "gwobr anrhydedd Ceredigion 2008". Diolch i Beryl Hughes am fy enwebu. Pleser mwya yw gweithio ar wahanol bwyllgorau yn yr ardal. Mae pobl Bow Street a Llandre yn "spesial" yn enwedig y To Hŷn. Mae stôr o wybodaeth a storiau i ryfeddu dim ond rhowch amser i wrando, mae llawer i ddysgu.

# GOGINAN

### Priodasau

Llongyfarchiadau i Sian Eleri (Jones) gynt o Dir Na Nog, Cwmbrwyno ac ail ferch i Tom a Iona Jones, ac Aled Walters o Gaerdydd ar eu priodas yng Nghapel Stryd Minny ar 29 o Awst. Nia Elin ei chwaer oedd y forwyn briodas gyda Martha ac Ifan (nith a nai Sian) yn flodeuferch a gwas bach iddynt. Brawd Aled, Iwan Walters oedd y gwas priodas. Cafwyd y wledd briodas i lu o ffrindiau a pherthnasau yng Ngwesty Dewi Sant, Bae Caerdydd. Treuliodd y pâr eu mis mêl yng Ngorllewin UDA a Hawaii. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ers peth amser yng Nghaerdydd lle mae Aled yn gyfreithIwr a Sian yn darlithio yn y Brifysgol yno.

Llongyfarchiadau i Richard Anthony, mab Eric a Margaret Anthony, Queen St., Goginan ar ei briodas yn ddiweddar â Simone Ashley o Landrindod yng Nghapel y Bedyddwyr yn Alfred Place, Aberystwyth. Maent wedi ymgartrefu ac yn gweithio yn Aberystwyth.

### Dathlu

Llongyfarchiadau i Lewis Johnstone, Y Druid, ar ei ddyweddiad â Carlie Bolwell, Yr Hafod, ac hefyd



dymuniadau gorau i Carlie ar ei phen blwydd yn un ar hugain ar Fedi 24. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol.

### Marwolaeth

Trist yw gorfod gofnodi marwolaeth Hywel Aneurin Jones, Y Bwthyn, Cwmbrwyno ar Fedi'r 14eg wedi ysbaid byr o waeledd ac yntau ond yn 56 mlwydd oed.

Ganed Hywel yn bumed o saith o blant i Jane a'r diweddar Dennis Jones yn Pwlliwrch, Llanbryn-mair. Wedi gadael ysgol aeth i weithio i gigydd yn Machynlleth gan ddatblygu y grefft o ladd a pharatoi anifeiliaid mewn lladd-dy lleol yng Nghemaes; crefft nad anghofiodd erioed ac a ymarferodd yn ddiwyd drwy weddill ei fywyd. Aeth ymlaen i weithio gyda peiriannau gan fod yn rhan o amryw gynllun peirianyddol mawr, fel adeiladu argae Llyn Brianne ac yna i weithio i gwmni peirianyddol RE yn Aberystwyth.

Roedd y dyrfa fawr ddaeth i'w angladd ar Fedi 19 yn amlosgfa Aberystwyth dan ofal y Parchedig Elwyn Pryse yn arwydd o'r ffaith ei fod wedi byw ei fywyd yn llawn gan wneud llu o ffrindiau ac yn gymwynsagar i lawer tra yn ymarfer ei wir grefft.

Rhoddir ei lwch i orwedd gyda'i Dad a'i chwaer Dwynwen ym mynwent Ponterwyd. Pob cydymdeimlad gyda'i fam, Mrs Jane Jones, Y Bwthyn a Huw Jones a'i deulu, Yr Hafan Cwmbrwyno a gweddill ei deulu.

### Pen blwyddi

Cyfarchion pen blwydd arbennig:
i Molly Hutchings, Llwyngwyn, ar Fehefin y trydydd;
i Eric Stephens, Erw Deg, ar Fehefin y degfed;
i Iris Richards, Brodawel, ar Fehefin y pedwerydd ar bymtheg
ac i Ken Morris, Y Wern, ar Orffennaf y pedwerydd ar ddeg
Roeddynt i gyd yn dathlu cyrraedd carreg filltir '80'.
Dymuniadau gorau i 'Bedrybled' Goginan!!

**Chwiorydd y Garn**

Tachwedd 5ed
Prynhawn Mercher

**Cymdeithas Chwiorydd y Garn**
am 2.30 o'r gloch
**'Wyt ti'n gêm? gyda Glyn a Gill Saunders Jones**

Tachwedd 29ain
Dydd Sadwrn

**Ffair y Garn dan ofal y Chwiorydd**
yn Neuadd Rhydypennau, 10-12 o'r gloch

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

**Tachwedd**

**2** 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa gymun — Gweinidog
**9** 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
**16** 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa bregethu — Gweinidog Paned i ddilyn
**23** 10.30 Clwb Sul a Clwb Sul bach ac Oedfa bregeth Y Parchg Peter M. Thomas
**30** 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

## I'r Coleg

Dymuniadau gorau i Lydia Adams, Glyn Helyg, sydd wedi mynd i Brifysgol Bangor i ddilyn cwrs cerddoriaeth.

## Ymddeoliad hapus

Dymuniadau gorau i Robert Dobson, Cae Mawr, sydd wedi ymddeol o'i waith yn y Cyngor Llyfrau lle bu am dros 30 mlynedd.

## Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Hydref, 12 a 26 Tachwedd. Cysylltwch â Egryn Evans — 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Ysbyty

John Hughes, Pencwm ar ôl triniaeth yn Ysbyty Treforus.

## Cydymdeimlad

Cydymdenilwn a Ken Evans, Coedgruffydd ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith Ann ym Mronnant ac â Morfudd Morris, Maes Seilo, ar farwolaeth nai yn Ffrainc.

## Diolchgarwch Horeb

Daeth Dr Dylan John, meddyg ifanc o Grymych sy'n feddyg yn Ysbyty Llwyn Helyg, Hwlffordd atom i'r gwasanaeth diolchgarwch i sôn am ei gyfnod yn Lesotho lle bu am ddeufis tra'n fyfyriwr. Mae Horeb wrthi yn creu cyswllt ar hyn o bryd gydag Eglwys Ebenezere yn Lesotho. Lleolir yr eglwys mewn pentref gwasgaredig a thlawd iawn tua 10 milltir y tu allan i'r brifddinas, Maseru. Cyfanswm aelodau y saith gangen o'r fam eglwys.yw 2,000 aelod; mae 194 yn yr Ysgol Sul, a 300 yn Undeb y Mamau sy'n weithgar y tu hwnt yn codi arian, yn trefnu ac yn arwain grwpiau gweddi, yn ymweld â'r claf, yr henoed a gweddwon. yn eu cartrefi ac mewn ysbytai. Mae pob aelod o Undeb y Mamau wedi cael galwad i'r gwaith ac yn gwisgo gwisg arbennig - ffrog ddu a choler wen. Mae y wraig o weinidog - Merriam ar ei 8fed blwyddyn yn weinidog yma ac maent yn adeiladu estyniad i'r capel.

Soniodd Dr John, trwy gyfrwng lluniau am ei brofiad o yn y wlad a chymerwyd at y rhannau arweiniol a sgets gan aelodau y Clwb Sul. Gyrrwyd y casgliad o £125 i'r Ysbyty y bu Dylan ynddi

## Gweinidog Anrhydeddus

Brynhawn Sul 5 Hydref croesawyd y Parchg Peter M. Thomas fel Gweinidog Anrhydeddus gan y Parchg Judith Morris

## Cymdeithas y Penrhyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb ar y 17eg o Fedi a braf oedd croesawu wynebau newydd i'n plith.

Rhaid cyfadde fod cryn chwilfrydedd ymysg y marched y mis hwn am mai'r amryddawn Mererid Hopwood oedd y wraig wadd. Ni'n siomwyd!

Testun ei sgwrs oedd "Dim ond geiriau". Gwyddom am ei llwyddiant eithriadol yn cyflawni'r gamp driphlyg; ond buan y sylweddolom fod ganddi hefyd ddawn dweud fyrlymus, naturiol, a hoeliwyd ein sylw o'r cychwyn â'i chrefft i drin geiriau.

Cawsom ganddi bytiau o farddoniaeth mewn tafodiaith — o waith Dewi Emrys a Waldo, er enghraifft, hanesion teuluol llawn hiwmor, yn ogystal â blas o'i chyfansoddiadau unigryw hi.

Dwi'n amau i nig yd gael ein cyfareddu gyda'i dawn traddodi a'i brwdfrydedd heintus a death y sgwrs i ben yn llawer rhy fuan!

Diolchwyd iddi gan Richard Owen.

Edrychwn ymlaen at sawl noson ddiddorol arall yn ystod y flwyddyn.

## Brysiwch wella

Dymunwn wellhad buan i Mr V Bolt, Ger-y-Llan, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Da yw deal fod John Hughes Pen-cwm yn cryfhau ar ôl ei driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Hefyd



Pentref yn Lesotho



Pentref ar gyfer plant anabl yn Lesotho



Dr Dylan John a'r Parchg Judith Morris gyda ieuenctid Horeb ar ôl y cwrdd diolchgarwch

Gwenda Thomas, Gwelfor, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Daliwch bawb i wella.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, Medi 11eg, fe groesawodd Mair Evans ein cyn-lywydd ni yn gynnes iawn i noson agoriadol y tymor newydd. Fe gawsom adroddiad o'n sefyllfa ariannol gan ein cyn-drysorydd Margaret Evans cyn iddynt fel cyn swyddogion drosglwyddo yr awenau i'r swyddogion newydd. Yna fe ategodd ein llywydd newydd Mairwen Jones at yr hyn a ddywedodd Mair a rhoi yr un croeso i'r aelodau hen a newydd; a diolchodd i bawb am eu gwaith da y tymor diwethaf. Fe gydymdeimlodd ag amryw o'r aelodau a gollodd anwyliaid yn ystod yr haf. A llongyfarch pawb a fu yn llwyddiannus mewn cystadlaethau dros y misoedd diwethaf. Yna aed ymlaen i wneud y busnes arferol o fynd dros yr ohebiaeth a oedd wedi dod i law. Wedyn fe ddaeth yn amser i groesawu ein gŵr gwadd, sef Gwyn Jones, Llambed a'i wraig Val sydd eu dau yn arbenigwyr ar y gêm Tipit. Roedd yna amryw ohonom erioed wedi chwarae y gêm hon a dim syniad beth i wneud ond o dan ofal Gwyn a Val ni fuom yn hir cyn dod i ddeall beth i'w wneud. Wel dyna beth oedd noson i'w chofio. Hwyl a sbri gyda holl weiddi a sgrechian trwy gydol yr amser. Tri ymhob tîm a phawb am fod ar y blaen. Efallai eu bod yn ymddangos ein bod yn ymddwyn tipyn yn afreolus ar adegau a meddwl ein bod yn aelodau Merched y Wawr! Credwch chi neu beidio, roedd hon yn noson werth chweil a phawb wedi blino yn llwyr ac yn chwysu ar ddiwedd y noson. Beth bynnag, mae Tipit yn rhan o gystadlaethau chwaraeon y Mudiad ac wedi ymddangos ar y teledu cyn hyn.

Diolchwyd yn swyddogol gan Ceri Williams, ac yna croesawyd pawb i ymgymryd o'r bwffe oedd wedi ei pharatoi gan yr aelodau. Tynnwyd y raffl fisol, ac aeth pawb tua thre wedi mwynhau yn fawr iawn.

Nos Lun, 15fed o Fedi, aeth criw ohonom trwy wahoddiad i ymuno ag aelodau Merched y Wawr, Tal-y-bont. Treuliwyd noson ddifyr dros ben. Yno yn ein diddori roedd Debra Griffiths, un o gymeriadau allan o'r gyfres



Mairwen Jones

*Coal House* a fu ar y teledu. Gwraig â gallu a thalent arbennig am ddweud ei hanes am yr amser a fu yn un o'r teuluoedd a gymerodd ran yn y gyfres. Diolchwyd i bawb ar ran Cangen Penrhyn-coch gan ein is-lywydd Ceri Williams. Noson arbennig dros ben.

### Llyfr Cynysgrif

Mae gennyf Lyfr cynysgrif o eiddo fy niweddar fam pan oedd yn ddisgybl yn ysgol y Sir (pryd hynny) yn 1913, ac y mae yn llawn o gyfarchion ond i gyd yn Saesneg gydag un neu ddau eithriad. Ond mae un arbennig wedi ei ysgrifennu y tu mewn i glawr cefn y llyfr sydd i mi yn ddiddorol dros ben oherwydd fod yna gymaint o sôn am gadw'r iaith Gymraeg heddiw. Mae yn eiddo i D. J. Davies, Ysgol Sir, Aberystwyth. Y dyddiad yw 16eg o Mehefin 1913. Mi fyddai yn ddiddorol iawn cael gwybod pwy oedd y person yma. Mae gennyf rhyw gof mai athro yn yr ysgol oedd.

Dyma beth a ysgrifennodd yn y cynysgrif:
I mi mae yr un mor addas heddiw.

Wedi darllen y llyfryn yma, a rhai cyffelyb iddo — trwodd, tarewir fi â syndod anesgrifiadwy bron fod yr ysgrifenwyr oll, gyda ambell eithriad yma ac acw, er yn Gymry bron i gyd, yn diraddio eu hunain, eu iaith a'u gwlad i'r fath raddau fel ag i ysgrifenu yr hyn sydd ganddynt i ddweyd, neu i ail ddweyd, yn iaith y Saeson, yn enwedig pan gofiwn fod cymaint o ddifyniadau cymwys i'w cael yn yr iaith Gymraeg. Garw na ddangosom ni'r Cymry dipyn yn rhagor o annibyniaeth meddwl ar ysbryd ac na fyddem mor barod i efelychu'r Sais ymhob peth bron. Dymuniadau goreu.

D. J. Davies
Ysgol Sir
Mehefin 16fed 1913
Aberystwyth

**Mairwen Jones**

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Miss Helen Davies, dirprwy bennaeth Ysgol Penrhyn-coch ar farwolaeth ei thad ; hefyd â'r Parchg John a Mrs Kathryn Livingstone, Y Ficerdy, ar farwolaeth tad Kathryn yn Sanclêr; ac â'r tair chwaer - Anne a Dei Jones, 12 Tan-y-berth; Mair a Bernard Edwards, Hafod Wen, 8 Y Ddôl Fach a Marion a Tommy Lewis a'r teulu, Denver, Garth ar farwolaeth eu mam — Mrs Jane Arch , gynt o Ysbyty Ystwyth.

### Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Bellach a threfniadau cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 yn hysbys dymuna Mairwen Jones, ysgrifennydd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch gadarnhau mai dyddiadau Eisteddfod Penrhyn-coch yn 2009 fydd Ebrill 24-25.

### Bingo!

Cynhelir noson chwarae bingo yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch nos Wener Tachwedd 21; trefnir gan Bwyllgor y Neuadd i godi arian i Apêl Plwyf Trefeurig Eisteddfod yr Urdd 2010. Os oes rhywun â diddordeb i noddi y noson byddai'r pwyllgor yn falch o glywed gennych — cysyllter â Dai Rees Morgan 820 233

NOSON GWIS
Y TINCER

Neuadd Penrhyn-coch
7 Tachwedd 2008, 7.30pm

Agorir y noson gan yr awdures
Caryl Lewis

Mynediad £4 i gynnwys lluniaeth ysgafn
(£1 i blant)
Croeso cynnes iawn i bawb!

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

## Yr Urdd ym Melindwr

Efallai gwyddoch fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i Geredigion yn 2010. Mae'r Pwyllgorau Apêl Lleol wrthi'n gweithio i godi ymwybyddiaeth.

Eich prif bwyllgor lleol chi yw Pwyllgor Etholaeth Melindwr, sy'n cynnwys ardal a phentrefi Ponterwyd, Pontarfynach, Cwmystwyth, Pisgah, Capel Seion, Cwmrheidol, a Chapel Bangor. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn Neuadd Eglwys Capel Bangor, ar drydedd nos Fercher pob mis, am 7.30pm. Mae croeso i bawb.

Mae'r Urdd wedi gosod targed o £8,000 ar gyfer etholaeth Melindwr, a hyd yma mae'r Pwyllgor wedi llwyddo i godi o gwmpas £1,800 drwy gyfraniadau busnesau a chymdeithasau lleol, a drwy gynnal stondin mewn digwyddiadau fel Sioe Amaethyddol Aberystwyth, Sioe Capel Bangor, Sioe Fach Ponterwyd, Miri Mynach. Bu'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am y barbiciw yn Sioe Capel Bangor.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma, yn eu gwahanol ffyrdd, ac estyn croeso i unrhyw un sydd am ymuno yn y gwaith.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor wrthi'n llunio rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer tymor y gaeaf, a'r gwanwyn. Cadwch lygad allan am ein hysbysebion.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Cadeirydd, Branwen Davies ar 01970 890437, neu e-bostiwch branwen_davies@yahoo.co.uk




Prif Ferch Coleg Llanymddyfri eleni yw Elinor M. Davies Farn, gynt yn byw yn Nhŷ Garej Bangor, Blaengeuffordd ac wedyn ym Mlas-y-dderwen, Gelli Angharad. Mae Elinor yn unig ferch i Tim a Caryl Farn, ei mam o deulu Garej Cawdor, Castellnewydd Emlyn. Mae Elinor yn gyn-ddisgybl o Ysgol gynradd Pen-llwyn ac Ysgol Sul Capel Pen-llwyn. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

## Telynores Leol yn dod yn ôl i Gapel Bangor

Bydd y delynores Eira Lynne Jones yn dychwelyd i'w chartref i roi Cyngerdd i gefnogi yr eglwys leol, nos Wener Tachwedd 7fed am 7.30 o'r gloch. Eira fydd yr artist arbennig mewn noson o gerddoriaeth yn eglwys Dewi Sant, gyda chôr Ysgol Pen-llwyn a'r unawdydd Glenys Jenkins.

Ar y dydd Sadwrn canlynol, Tachwedd 8fed, cynhelir Gweithdy i delynorion ieuainc yn yr eglwys. Cysyllter â Heather Evans ar (01970) 880 469 os ydych â diddordeb i fynychu y Gweithdy.

Mae Eira yn awyddus i delynorion lleol i ddod ynghyd i gael cyngor sut i baratoi ar gyfer arholiadau, i wella eu hymarfer ac i ennill fwy o hyder ac ati. Mae yn annog pob lefel o chwarae i roi eu presenoldeb, ac elwa o brofiad helaeth o'i dysgeidiaeth. Bydd yn achlysur croesawgar a chyfeillgar i gerddorion ieuainc. Anogir rhieni a gwylwyr i fynychu y digwyddiad unigryw hwn.

Mae Eira yn gyn-ddisgybl Ysgol Gynradd Pen-llwyn ac Ysgol Gyfun Penweddig. Graddiodd o Goleg "Royal Northern" Maenceinion. Wedi derbyn rhoddion o Gyngor y Celfyddydau, a Chronfa Ryan Davies, enillodd ei gradd M. A. yn Ysgol Gerddoriaeth Manhattan Efrog Newydd.

Wedi dychwelyd i Brydain Fawr, apwyntiwyd hi yn Brif Delyn gyda Cherddorfa Theatr "Northern Ballet", cyn dilyn gyrfa fel telynores yng Ngogledd Gorllewin Lloegr. Mae Eira yn chwarae yn rheolaidd i Gerddorfa'r Hallé, yn ogystal a bod yn athrawes. Mae yn bennaeth Astudiaethau'r Delyn yn Chetham a'r RNCM.

Bydd y noson hon, ar y 7ed o Dachwedd yn noson hudol o gerddoriaeth, a hyderwn y gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol i gefnogi merch leol yn dychwelyd adref iw phentref.

Am ragor o wybodaeth am docynnau a sut i fynychu y gweithdy telyn, cysylltwch os gwelwch yn dda â Heather Evans ar (01970) 880 469



Eira Lynne

## Dathlu

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwenan John, Fferm Cyncoed, fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 18 oed ar Hydref 18ed. Yn gynnharach yn y flwyddyn cyflawnodd Gwenan y gamp o basio ei phrawf gyrru ar yr ymgais gyntaf. Ers hynny nid yw injan y *Peugeot* bach wedi cael amser i oeri!!

## Newid Swydd

Pob lwc a dymuniadau da i Mrs Eluned Lewis, Brynmeirion, sydd yn ned. Bu yn y gorffennol yn gweithio i Pentir Pumlumon ac hefyd i Menter Aberystwyth. Mae Eluned wedi derbyn swydd newydd yn ddiweddar gan gwmni *Airtricity*. Pob hwyl iddi yn y gwaith.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Sally Evans, Tywynfa, Pen-llwyn, ar golli chwaer yn ddiweddar, sef Mrs Jinny Kirkwood a oedd yn 87 mlwydd oed ac yn byw yn yr Alban. 'Roedd Mrs Kirkwood yn un o chwech o blant, ond fel y dywed Mrs Evans, dim ond tair chwaer sydd ar ôl bellach. Cofiwn am y teulu a'r cysylltiadau yn eu hiraeth.

## Cylch Meithrin Pen-llwyn

Croeso cynnes iawn i Delan Gwynne sydd wedi ymuno â'r Cylch yn ddiweddar.

Mae'r plant wedi bod yn dathlu pen blwydd "Smot" y Ci, ac maent wedi gwneud cacen siocled iddo a chael parti. Buom hefyd yn brysur y tu allan yn casglu gwahanol fathau o ddail i'w paentio a'u stampio ar bapur.

Ar ddydd Gwener, 24ain o Hydref, byddwn yn cynnal "Parti Calan Gaeaf" yn Neuadd y Pentref, Pen-llwyn, am 4.30yh tan 6.30yh. Bydd yna gystadleuaeth gwisg ffansi, gêmau a cherddoriaeth, raffl a gwobrau. Mae croeso i bawb i ddod. Y tâl mynediad yw £2 i blant Ysgol Feithrin a Chynradd, a hynny yn cynnwys Ci poeth, cacen a diod.

## Cystadleuaeth dylunio logo

Mae angen logo ar y Cylch Meithrin, a bydd y logo buddugol yn cael ei ddefnyddio ar lythyron posteri a chrysau polo newydd i blant a staff y cylch. Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i blant ysgolion meithrin a chynradd, a gofynnir yn garedig am rodd o 50c am bob cynllun a gyflwynir. Danfonwch eich ceisiadau i: Cystadleuaeth Logo, Tyncastell, Pontarfynach, Aberystwyth, SY23 4QU erbyn 20fed o Hydref. Byddwn yn cyhoeddi'r enillydd ym mharti Calan-gaeaf y Cylch. Diolch yn fawr a phob lwc i chwi gyd.

Mae croeso i unrhyw blentyn rhwng dwy a phedair oed ymuno â'r Cylch Meithrin, i fwynhau cwmni plant eraill a chael dysgu drwy chwarae. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Bethan James y gadeiryddes ar (01970) 890283 neu Gail Nolan yr arweinyddes ar (01970) 871390.

# LLANGORWEN

### Marwolaeth

Bu farw Anne Eluned Griffiths, Crow's Nest, Llangorwen, yng Nghartref Tregerddan. Gwraig y diweddar Tommy Griffiths, mam David ac Eileen, mam-gu Isla ac Andrew, a hen fam-gu i Lewis.

Roedd yn chwaer i'r diweddar Gwyneth Lewis a Janet Kyffin, Aberystwyth. Cynhaliwyd yr angladd dydd Iau Hydref 2il yn Amlosgfa Aberystwyth. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

# DOLAU

### Gwaith dramor

Mae dau fab Dolau Gwyn yn gweithio mewn gwledydd Celtaidd ar hyn o bryd. Garmon Ceiro yn Gynorthwyydd dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Rennes yn Llydaw a'i frawd Deiniol yn gweithio mewn Cloddfa sinc yn Nhipperary.

### Genedigaeth

Mae Alun a Margaret Rees, Seintwar wedi gwirioni ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf. Fe anwyd Samuel (Sam) yn ddiweddar i Andrea a Julian. Mae'r teulu bach ym Mhenarth wrth eu bodd.

### Ymddeoliad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r Athro Gruffydd Aled Williams ar ei ymddeoliad o'r Brifysgol yn Aberystwyth.



Mihangel Morgan yn cyflwyno ei lythreniad cain o gerddi cyfarch i'r Athro Gruffydd Aled Williams ar ran ei gyd-weithwyr yn yr Adran Gymraeg mewn cino yn Ffosrhydgaled. Lluniwd y cerddi gan Huw Meirion Edwards, Peredur Lynch ac Eurig Salisbury i gyfarch yr Athro ar ei ymddeoliad fel Pennaeth yr Adran ac Athro Cymraeg y Brifysgol rhwng 1995 a 2008.

# Yr Athro Gruffydd Aled WIlliams

## I RUFFYDD ALED

Pe bai'r Guto'n barddoni
Yng Nglyn-y-groes ein hoes ni
Dôi dros sawl dŵr oer a sarn
(Yna bodio o Lanbadarn)
Draw ar wib i dir Aber,
Loncian o'r Glyn cyn i'r Glêr.

Gael ei arogl, oherwydd,
Er dod i gydnabod Nudd
Ym mhob tŷ a rhannu rhodd
O arfer, dod o'i wirfodd
A wnâi heddiw, a chiwio
I roi clod i'w Ercwl o.

Gwelai, wir, fod un o'r Glyn
Ym mhalas y tŵr melyn
O'i flaen, sydd, fel ei hunan,
Yn swigio lot o Osai glân!
Llawenhai a llenwai'r llys
Â'i drosiadau arswydus.

Âi'r Hen Gol yn Rhôn a'i gwŷr
A'r hen fôr yn fyfyrwyr,
Staff Aled fyddai'r cedyrn
Wrth ei foli'n codi cyrn
Eu medd hwy i'r ymddeol,
Dymuno'i weld yma'n ôl.

Ond dorf, cyn dod i derfyn
Ei gân yn iawn, gwn i hyn,
Yr âi bardd ymylau'r byd
A'r Glyn i ofyn hefyd
Bellach ba ddôr agored? Ba eilun,
Ba Broff i'w ddilyn? Ba Ruffydd Aled?

Eurig Salisbury

## ALED

Bydd ein sgyrsiau'n deneuach – drwy'r hydre
A'r Adran yn wacach,
A ni'n awr yn canu'n iach
I ŵr na fu'i gywirach.

Huw Meirion Edwards

## I GYFARCH ALED AR EI YMDDEOLIAD

Hendy hardd yw dy ddysg di, – hen neuadd
Eang ei goleuni;
Cadarnwych yw'r coed arni
A'r Gymraeg yw ei mur hi.

Y Dwned a'r Dadeni – a huliaist
Yn hael i bob cwmni;
Gweini'n deg i'th gywion di
Geginwaith i'w digoni!

Peredur Lynch

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU
IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

# CWMRHEIDOL

### Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Ellie Doidge, Cae gynon, ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeunaw oed.


### Urdd y Benywod

Daeth yn amser i gychwyn ar y gweithgareddau eleni eto ac yn ôl yr arfer, ers llawer blwyddyn, aethpwyd ar daith gerdded. Canolfan Nant yr Arian oedd y gyrchfan eleni ac er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn cafwyd prynhawn dymunol iawn yn cerdded a chymdeithasu dros baned o de cyn troi am adref.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Peter a Ioan Lord, Gellifach, ar golli mam a mam-gu annwyl yng Nghaerwysg yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Ioan ar gael ei ethol yn gadeirydd Cyngor Yr Ysgol Gymraeg am eleni. Pob hwyl i ti ar y gwaith pwysig yma.

### Llyfr Newydd




Mae Noragh Jones Troedrhiwsebon, wedi bod yn brysur iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn mynd o amgylch trigolion pen uchaf Cwmrheidol yn casglu hanesion ac yn cael eu barn am y newid mawr sydd wedi digwydd yma o fewn cof y rhai sydd wedi bod yn byw yma erioed, a hefyd y newydd ddyfodiaid. Ffrwyth yr ymchwil yw y llyfr *Cwmrheidol People* a gafodd ei lansio yn Nhroedrhiwsebon nos Sadwrn Medi 27ain. Cynlluniwyd y clawr gan Ioan Lord, Gellifach. Mae yn lyfr llawn o hanesion am y Cwm ei hun a hefyd am y bobl sydd wedi symud yma o bob cwr o'r byd.

### Gwasanaeth coffa

Dydd Sadwrn Medi 27ain cynhaliwyd gwasanaeth syml yng Nghapel Llwyn-y-groes i gofio am y diweddar Megan Critchley o Walsall. Cafodd ei mam ei geni yn Ffrwd-ddu a'i thad yn Llain. Ar ôl priodi bu y ddau yn byw yn Ty-melyn lle cafodd ei brawd ei eni ond yn fuan wedyn aethant i fyw i dde Cymru lle cafodd Megan ei geni. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu yn dod i aros ar ei gwyliau yn Caehaidd a'i dymuniad oedd cael ei llwch wedi ei rhoi ym medd ei rhieni ym mynwent Bethel, Cwmrheidol. Y Parchg Ifan Mason Davies oedd yng ngofal y gwasanaeth a'r organydd oedd Delyth Morgan. Daeth nifer o berthnasau ynghyd, rhai wedi trafaelio o bell i dalu y gymwynas olaf.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes nos Iau olaf Mis Medi. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Enid Morgan, Aberystwyth. 'Roedd y Capel bach wedi ei lanhau a'i addurno yn hyfryd iawn eleni eto. Croesawodd Elizabeth Lewis pawb i'r oedfa a hyfryd oedd gweld nifer o ffrindiau wedi troi i mewn atom. Diolch yn arbennig i Meriel Morgan am roi ei gwasanaeth wrth yr organ, a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

# MADOG

**Suliau Tachwedd**

**Madog 2**
**2** J.E. Wynne Davies
**9** Tudor Davies
**16** Bugail
**23** Stephen Morgan
**30** J.R. Jenkins

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Sioned Hughes, Gwarcwm Hen a Llywelyn Ifans o Dregaron ar eu dyweddiad.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog, ar golli ewythr - Mr Hodgson o Aberystwyth; hefyd, Dei a Wendy Evans a'r teulu Fferm y Fronfraith ar golli modryb — Mrs Annie Evans, Bronnant.

### Mynd i'r coleg

Pob lwc i'r canlynol wrth iddynt ddechrau yn y colegau. Hannah Binks, Trysor, i Fangor; Trystan Davies, Llwyngwyddil, i Aberteifi; Rheinallt Jones, Felin Hen, i Goleg Llysfasi, Rhuthun; a Mared Hughes, Gwarcwm Hen i Lanbadarn Fawr.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Madog ar nos Fawrth, 21 Hydref am 7.00 o'r gloch. Y pregethwr gwadd yw'r Parchedig Nicholas Bee.

# Mantolen Y Tincer 2007-2008

**DERBYNIADAU**

| | | |
|---|---|---|
| BWRDD YR IAITH GYMRAEG | | £1,359.00 |
| CYNGHORAU CYMUNED | | |
| Y BORTH | £50.00 | |
| TIRYMYNACH | £250.00 | |
| TREFEURIG | £300.00 | |
| MELINDWR | £200.00 | |
| GENAU'R-GLYN | £200.00 | £1,000.00 |
| CYFEILLION Y TINCER | | £500.00 |
| GWERTHIANT | | £4,564.70 |
| HYSBYSEBION | | £826.30 |
| TINCER TRWY'R POST | | £180.60 |
| RHODDION | | £71.00 |
| CYNNWYS TAFLENNI | | £150.00 |
| FFAIR Y TINCER | | £590.15 |
| CYNGOR SIR CEREDIGION | | £500.00 |
| | | £9,741.75 |
| MEWN LLAW MEDI 2007 | | £2,410.24 |
| | | £12,151.99 |

**TALIADAU**

| | |
|---|---|
| ARGRAFFU | £6,054.87 |
| GOSODWR | £1,700.00 |
| TEIPIO | £600.00 |
| GWEINYDDOL (STAMPIAU AYB) | £161.18 |
| TRYSORYDD | £50.00 |
| GOLYGYDD | £100.00 |
| | £8,666.05 |
| MEWN LLAW MEDI 2008 | £3,485.94 |
| CYFRIF CADW | £125.00 |

# TREFEURIG

### Sioe Cymdeithas Trefeurig

Cynhaliwyd y sioe yn hen ysgol Trefeurig dydd Sadwrn Medi 6ed. Er gwaethaf y tywydd anffafriol cafwyd diwrnod hwyliog, gyda nifer da o gystadlaethau o safon ym mhob adran.

I gydredeg â'r cystadlu yn y sioe roedd y pwyllgor wedi trefnu nifer o weithgareddau ac atyniadau i ddiddori'r ymwelwyr. Llywydd y dydd oedd Edwina Davies, cyn ysgrifenyddes y sioe ac aelod o'r Ganolfan Gymdeithasol ers y cychwyn (nôl yn 1973). Yn ei haraith fer diolchodd Mrs Davies i'r pwyllgor am yr anrhydedd o gael ei gofyn i lenwi'r swydd, a dymunodd bob llwyddiant i'r sioe.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r beirniaid, cystadleuwyr, stiwardwyr ynghyd a'r rhai fu'n paratoi bwyd, paratoi a chlirio'r adeilad, a gyfranodd wobrau i'r raffl a'r cystadlaethau ac i bawb am eu presenoldeb ar y diwrnod. Diolch arbennig i'r Aelod Seneddol Mark Williams a Mrs Williams am feirniadu'r Adran Gŵn ar rybudd byr iawn, roedd yn hyfryd cael eu presenoldeb fel teulu yn y sioe, felly hefyd ein Cynghorwr Sirol, Dai Suter.

**Prif enillwyr yr Adranau**

Llysiau a ffrwythau — Fred Ralphs
Blodau — Ann Edwards
Crefft (i) — Tom Neville
Crefft (ii) — Rose Neville
Coginio — Eleri Davies
Plant Cynradd — Dewi Davies
Plant Uwchradd — Gwenan Clegg
Cynnyrch Fferm:
Sampl o Silwair — Glyn Davies
Sampl o Wair — Meirion Edwards
Sampl o Wywair — Glyn Davies
Tywarchen o Borfa — Meirion Edwards
Ysgallen Talaf — Ken Evans
Sioe Gŵn — Gorau yn y Sioe — Maddy Lewis
Enillwyr y cystadlaethau a gynhaliwyd yn ystod Mis Awst:
Basged Grog — Rose Neville
Pwll Gardd Gorau — Alayne Reeves
Diadell Fynydd Orau — Ken Evans
Ceffylau/Merlod:
Ceffyl/Merlen 16 oed a throsodd — Cyflwr Gorau — Teulu Gillison a May
Ceffyl/Merlen dan 16 oed — cyflwr gorau — Sera Walker a Bertie

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor y Sioe, nos Fercher, Medi 30ain, pryd trafodwyd llwyddiant a gwendidau y sioe. Tynnwyd allan rhestr o feirniaid ar gyfer sioe 2009 a cyflwynodd y trysorydd y fantolen. Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos i wneud trefniadau ar gyfer Swper Cymdeithasol sydd i'w gynnal yn y Ganolfan, y dyddiad i'w drafod.

### Priodas

Llongyfarchiadau i Ayshe Guest, Bronhaulwen, ar ei phriodas â Matthew Beatrup ar Fedi 24ain yn Nidri, Lefkas, Gwlad Groeg. Dymuniadau gorau a phob lwc i'r pâr ifanc am y dyfodol.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Eleri Edwards, Cysgod y Coed, Cwmsymlog, ar ei dyweddiad â Sion Jones o Dal-y-bont dros y penwythnos 11-12 Hydref. Oddi wrth Mam, Dad, Dewi a Huw a'r teulu i gyd.




# COLOFN MRS JONES

Y mae hi'n gyfnod diolchgarwch, unwaith yn rhagor, ac er nad fy mwriad yma yw pregethu fy mhregeth diolchgarwch am y flwyddyn hon, mi rydw i am godi ambell i bwynt.

Nid wyf yn hoff o'r hydref .Y mae iddo ei harddwch cyfareddol ei hun ac yr wyf yn fyw i'w gyfoeth a'i sbloet ond, mewn difrif, trothwy'r gaeaf yw'r hydref ac y mae'n anodd i haul garwr fel fi ddathlu dyfodiad hwnnw a'i law a'i oerni! Mae'n anodd diolch a hithau'n derfyn haf, hyd yn oed haf gwael, er fod yr holl gynnyrch a welwn yn profi ein hangen i ddiolch ac yn profi gwirionedd gweddi casgliad yr eglwys,

'O'th law di y daw popeth
Ac o'th law dy hun y rhoddwn iti'.

O, oes, mae gennym ddigon i ddiolch amdano ond, mewn rhyw ffordd od, mae hyn, yn ogystal â dyfodiad y gaeaf, yn ei gwneud hi'n anodd i mi ddathlu mewn gwasanaeth penodedig.

A wyddoch chi pam? Wel, mae'r ateb yn syml, am fy mod i yn ofni fod yr arfer o gynnal gwasanaethau diolchgarwch wedi creu pobl sydd yn meddwl mai dim ond unwaith y flwyddyn sydd yn rhaid i ni ddiolch. Ac ofnaf fod canran sylweddol yn credu mai dim ond i wasanaeth diolchgarwch y mae'n rhaid iddynt fynd ac y gallent anwybyddu capel ac eglwys weddill y flwyddyn. Arferai ewythr i mi honni ei fod yn mynd i'r capel yn gyson a diolchgar ac y cyfrannai yn dda at yr achos yng Nglan Conwy. Nid oes amheuaeth am y pwynt olaf, yr oedd ei gyfraniad ariannol yn drymach na neb ond dim ond unwaith y flwyddyn yr âi i'r capel, a hynny ar ŵyl diolchgarwch. Ni fethai fynd ac, yn wir, yn ôl ei oleuni ei hun, yr oedd yn ffyddlon a diolchgar .... ond pan ofynnais i iddo oni ddylai fynd yn amlach ac, efallai, y byddai'n well gan y capel lai o'i arian a mwy o'i gwmni a'i ymroddiad, yr ateb a gefais yn syth oedd mai dim ond un cyfarfod diolchgarwch a gynhaliai'r capel!

Rwyn siŵr ei fod yn eithriad yn ei eithafiaeth ar y pwnc ond yr wyf hefyd yn siŵr fod digon o bobl yn meddwl fod un sesiwn o ddiolch am flwyddyn yn ddigon ac ofnaf weithiau fod hyn yn wir am rai sy'n addoli yn gyson. Ond penllanw blwyddyn o ddiolch ddylai'r gwasanaeth fod, coron diolch mynych ac addewid am barhad diolch dyddiol i'r Duw sydd yn rhoi mwy na'n hangen ac sy'n rhoi hyd eithaf aberthu Ei Fab Ei hun i'n prynu boed ni yn haeddu Ei haelioni neu beidio. Ac er fod gweddi yn anhepgor mewn patrwm dyddiol o ddiolch, y mae ffyrdd eraill ar gael i ni.

Ni ddylem fodloni ar ffeithiau fel y rhain. Mae 75% o adnoddau'r byd yn dal yn nwylo 25% o'i boblogaeth, mae 25% o anifeiliaid y byd yn wynebu difodiant ac mae'n byd yn llygru yn ddyddiol. Ond beth, meddech chi sydd â wnelo hyn â diolchgarwch? Fy ateb i yw hyn, petaem ni yn wirioneddol ddiolchgar fe fyddem yn gofalu am ein byd a'i adnoddau ac yn eu defnyddio yn deg a chyfiawn a chynaladwy. Nid arglwyddiaeth dros y ddaear a roddodd Duw i ni ond stiwardiaeth, gofal a chonsarn yw stiwardiaeth nid rhaib ac anrhaith ac y mae'n bryd i ni Gristnogion sylweddoli mai ein dyletswydd ni yw dangos i Dduw ein bod yn parchu Ei roddion i ni trwy warchod cyfoeth y ddaear a'i rannu yn decach mewn ffyrdd y gellir eu cynnal a'u cadw. Rhan o'n diolch dyddiol ni fyddai gweithio i adfer glendid daear a hyrwyddo ailgylchu a dileu newyn a rhyfel ac anghyfiawnder. Dylem bob amser geisio profi y gall cariad Duw newid byd ond i wneud hyn, rhaid i ninnau ei arddangos at eraill, dyma ein gwaith o dan siars yr Arglwydd Iesu i ni garu ein gilydd a dyma ein gwaith fel aelodau ei gorff ef ar y ddaear hon.

Y peth arall sydd rhaid i ni ei wneud yw diolch am bopeth. Ein tuedd ni yw diolch am y pethau da ond mae hyd yn oed profedigaethau'r byd hwn yn medru bod yn destun diolch. Maent yn gyfle i ni brofi cariad Duw yng nghwmniaeth a chymwynas eraill ac yn gyfle i ni ddysgu ymnerthu mewn ffydd yn ein profedigaethau ein hunain neu yn gyfle i ni wasanaethu eraill sydd mewn gofid.

Dyma'r pethau sydd yn creu cyfeillgarwch a chymdogaeth dda - dau beth sydd yn hanfodol i hapusrwydd a dau beth sydd, o'r herwydd, yn destun dathlu a diolchgarwch.

I'r Celtiaid, roedd diwedd mis Hydref yn ddechrau blwyddyn ac fe rydym, un ac oll, yn gyfarwydd â addunedau blwyddyn newydd. A thybed nad dyma'r amser gorau un i ni ddathlu gwir ddiolchgarwch trwy addunedu diolch yn ddyddiol mewn gweddi a gweithred?

# Cyfarfod Maes



Rhes flaen o'r dde: Gwyn Jones, Llys Maelgwyn, un o sylfaenwyr Cymdeithas Ceredigion; Dafydd Jenkins, Tan-yr-allt; Dyfed Evans, Glanrafon; Ken Evans, Coedgruffydd; Ned yr Hendre, Trawsfynydd; Siarl Owen, Tynddraenen; William Huws Jones, Coedliadur, Llanuwchllyn.

Cafwyd diwrnod cofiadwy arall yn hanes yr Adran Fynydd o'r Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig, ddydd Sadwrn, Medi 27, yn Aberceiro, Ponterwyd, pryd y daeth pedwar ugain o fugeiliaid yno o Arfon, Ceredigion, Dinbych, Meirion a Threfaldwyn. Ceredigion yw'r lleiaf o ddigon o'r Pum Sir ac y mae'n gymaint â hynny'n fwy o gamp i ddod o hyd i ddiadell o safon bob pum mlynedd, heb lethu'r rhai a fu yn barod dan yr iau. Buom yn neilltuol o ffodus felly i Glyn Rowlands a'r teulu, Frondeg, Penrhyn-coch, yr 'hendref' megis, ddod i'r adwy a mynd i'r fath drafferth i ddangos diadell Aberceiro wedi ei dosbarthu yn yr 'hafod', yn famogiaid, hesbinod ac ŵyn benyw allan mewn llociau cyfleus a'r hyrddod hŷn, hyrddod blwydd ac ŵyn hyrddod ar wahân mewn adeilad a godwyd yn un swydd at y gwaith. Gwelwyd hefyd epil hyrddod neilltuol o Benglog, Aberhosan; Dysefin, Llanegryn; a Thyngraig, Tal-y-bont; mewn corlannau ar wahân, yn ogystal â rhai wedi eu magu o hyrddod cartref. Mae Glyn hefyd yn aelod o CAMP ac yn gallu defnyddio hâd o hyrddod Cymdeithas Adfer Mamogiaid Pumlumon, diadell a ffurfiwyd flynyddoedd yn ôl gan aelodau Ceredigion ym Mhwllpeiran, Cwmystwyth.

Cofia rhai o'r aelodau hynaf am ddiwrnod cyffelyb yn yr ardal yn 1961, y cyntaf o'i fath gan Geredigion, pryd y bu panelau o'r Pum Sir yn archwilio diadell Nantllyn, Blaenrheidol ar gyfer ei chofrestru'n llawn y bore, ac y trefnwyd arddangosfa gan y Weinyddiaeth Amaeth yn Henhafod gerllaw ar gyfer y prynhawn, y cyfan trwy garedigrwydd y Cadfridog Lewis Evans, Gelli Angharad, Capel Dewi. Dyn bychan diymhongar oedd ef, enillydd Croes Fictoria yn y Rhyfel Byd Cyntaf, gyda gofal am ei bobl ac am y rhai a anfonai ddefaid i'w luestau o gwmpas Nant-y-moch dros yr haf (am 7/6 y pen os cofiaf yn iawn.) Bu colled ar ei ôl, yn ôl a glywais. Arferai rhai ddweud bod tri char bach yn mynd trwy Aberystwyth ers talwm, heb yrrwr ynddynt. Y Cadfridog, Syr T.H.Parry-Williams a'r Athro E.G.Bowen oedd y cewri cuddiedig.

Yn 1964 dechreuwyd impio meillion ar wyneb y rhosdir gan ysgrifennydd cyntaf Ceredigion, W.J.Lewis, a'i fab Tegwyn Rhos-goch, ym Mlaenmelindwr ac yr oedd ffridd las Castell Coch i'w gweld uwhcben y meini, Y Fuwch a'r Llo, o Aberceiro. Nid anghofiwyd chwaith am y bwthyn gerllaw, lle ganed Syr John Rhys, yr ysgolhaig Celtaidd a phennaeth Coleg yr Iesu, Rhydychen, yn 1840.

Ni ddylid er dim anghofio cyfraniad cwbwl hanfodol Mrs Eileen Rowlands, ei theulu a'i chynorthwywyr, tuag at lwyddiant digamsyniol y prynhawn, pryd y cafwyd 'lluniaeth a llawenydd' yn yr heulwen. Gwnaeth Glyn Vaughan, Rhiwarthen, Pen-llwyn gynt, ein Llywydd, ymdrech arbennig i fod gyda ni er gwaethaf anhwylderau ac yr oeddym yr un mor falch o weld John Hughes, Pen-cwm wedi dychwelyd o Ysbyty Treforus i ail-gydio yn ei swydd o storïwr yn nhraddodiad yr hen gyfarwydd Cymreig, gan ddilyn Tomi John, Nantyfallen a Ted Griffiths, Y Ffwrnais, Eglwys-fach. Gall John hefyd, fel Ieuan Morgan Glanfred gynt, olynydd W.J.Lewis, ysgafnhau ambell bwyllgor trymaidd. Croesawyd ni ar y dechrau gan y Cadeirydd, Simon Lloyd Williams, Moelgolomen, Bont-goch, a bu Gareth Evans, Swn y Ffrwd, Bont-goch, yr ysgrifennydd, yn cynorthwyo Glyn fel sylwebydd ar y defaid. Yr oedd y trefniadau yng ngofal Moss Jones, Ysgrifennydd y Pum Sir. Ni warafun neb i mi enwi Gomer James, Yr Hen Bont, Ponterwyd, a fu yn gefn ac yn gymorth tawel i fugeiliaid ifancach yr ardal.

Mae llawer o ddŵr wedi mynd dan y bont ers 1961, ond mae'n galondid bod llawer i hen gyfaill yn aros.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol

Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i
Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn
gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312


GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd
Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# Adolygiad

**Hen ffordd Gymreig o fyw: ffotograffau John Thomas gan Iwan Meical Jones (Llyfrgell Genedlaethol Cymru / Y Lolfa, 2008) £14.95. Gweld yn Siopau Dots ac Inc**




Ar ddiwedd gyrfa lwyddiannus a disglair fel ffotograffydd roedd John Thomas "The Cambrian Gallery" wedi teithio trwy'r gogledd a'r gorllewin am dros ddeng mlynedd ar hugain yn tynnu ffotograffau. Cymru oedd yn ei ddenu yn gyson er iddo fyw yn Lerpwl ers iddo fod bymtheg mlwydd yn bell iawn oddi wrth ei fro enedigol yng Nghellan, ger Llanbedr Pont Steffan.

Pan drodd at ffotograffiaeth yn y 1860au yr oedd yn dilyn ffasiwn yr oes. Ffotograffiaeth oedd un o'r ffyrdd wneud arian yn gyflym bryd hynny gan fod pawb am gael tynnu eu llun. Gwneud arian oedd amcan John Thomas hefyd, ond fe wnaeth fwy na hynny. Yn wahanol i ffotograffwyr eraill a ddeuai i mewn i Gymru o Loegr a thu hwnt i dynnu lluniau, nid oedd yntau yn dod o'r tu fas. Yn hytrach yr oedd yn un ohonom ni. Gwêl awdur yr astudiaeth hon hynny yn esboniad ar ei allu i berswadio'r Cymry nid yn unig i aros am dynnu eu llun yn eu dillad parch, ond hefyd yn eu dillad gwaith. Felly llwyddodd i gadw cofnod o'r ddwy Gymru oedd yn cystadlu â'i gilydd.

Yn dilyn rhagymadrodd treiddgar lle mae'n olrhain hanes gyrfa John Thomas ac yn cynnig dehongliad ar ei waith, mae Iwan Meical Jones yn ein tywys trwy ddetholiad o'i ffotograffau yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol o dan y penawdau Llefydd, Pobl a Phortreadau. Wrth fynd o lun i lun mae'n cynnig sylwebaeth bellach ac felly caiff y darllenydd bob cymorth i ddeall ac i ddarllen y ffotograffau drosto'i hun.

Trwy lygaid John Thomas gwelir y Gymru a'r Cymry oedd yn ceisio anghofio, os nad gwadu, eu gorffennol trwy ymbarchuso a thrwy fabwysiadu gwerthoedd oes Victoria. Ond trwy'r un llygaid gwelir realiti tlodi a chaledi bywyd y rhelyw o drigolion y wlad. Ein braint ni yw rhannu yn hyn a gweld ein cyn-deidiau a'n chyn-neiniau fel yr oedd llygad y camera wedi'u gweld dros gan mlynedd yn ôl. Mae'r ffotograffau yn rhai rhyfeddol ac mae safon argraffu uchel yn gyfrol yn llwyddo i adlewyrchu cywreinrwydd brau y negyddion gwydr gwreiddiol.

Dwi'n siŵr y bydd pob ffotograff yn y llyfr hwn yn dal sylw'r darllenydd. Ond i'r darllenydd sydd â diddordeb yn y lleol ceir rhai ffotograffau o ogledd Ceredigion a de Meirionnydd: megis Ffair Machynlleth (1890), Gorsaf Machynlleth (tua 1885), Dadorchuddio cofeb Henry Richard yn Nhregaron (1893), Ysgol Sul Rehoboth, Tre Taliesin (tua 1885), a Hen wragedd Llangeitho (tua 1885).

Mae hon yn gyfrol sy'n werth eu darllen, ond mae'n gyfrol hefyd sy'n werth ei phrynu er mwyn troi yn ôl dro ar ôl tro i edrych ar y ffotograffau a gweld rhywbeth newydd yn gyson.

**Lyn Lewis Dafis**

# O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Wrth i'r flwyddyn academaidd newydd gychwyn, mae'r Cynulliad hefyd yn ailymgynnull ym Mae Caerdydd. Er i'r tywydd ddechrau gwella yn ddiweddar, fe arweiniodd y tywydd gwlyb a gafwyd yn ystod mis Awst at orfod canslo nifer o ddigwyddiadau yng Ngheredigion ar fyr rybudd. Fodd bynnag, fe wnes fynychu'r sioe yn Nhregaron ac er ei bod ychydig yn wahanol i'r arfer wedi i'r trefnwyr leihau'r nifer o gystadlaethau a chynnal y sioe yn Neuadd Goffa'r dref, fe ddaeth tyrfa dda i gefnogi.

Dros fisoedd yr haf fe ddaeth pryderon am ddyfodol y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan i'm sylw, ac fe drefnais gyfarfod gyda Gweinidog Addysg y Cynulliad, Jane Hutt AC, ar ddechrau mis Medi i drafod y sefyllfa. Y Brifysgol yw un o'r prif gyflogwyr yn ardal Llambed ac fe allai'r ansicrwydd presennol gael effaith fawr ar yr economi leol. Mae'r Gweinidog Addysg nawr wedi cadarnhau y bydd y Brifysgol yn derbyn pob cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn a gobeithiaf y bydd modd cymryd camau i gryfhau'r sefydliad.

Rwyf hefyd yn bryderus am ddyfodol cynlluniau ar gyfer ysbyty newydd yn Aberteifi. Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y Baddondy — oedd i gynnwys ysbyty, meddygfa ac archfarchnad newydd — fe fynychais gyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Iechyd Hywel Dda i drafod y mater. Yn ystod y cyfarfod fe godais yr angen i ystyried lleoliadau posib eraill yn nhref Aberteifi ar gyfer yr ysbyty newydd. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth Iechyd nawr yn edrych ar y lleoliadau yma'n fanylach dros yr wythnosau nesaf ac rwy'n gobeithio y cawn gytundeb ar leoliad ar gyfer yr ysbyty newydd cyn hir er mwyn symud yn agosach at ddarparu adnawdd iechyd newydd ar gyfer yr ardal.

# Trysorau'r dyfodol yn dathlu Eisteddfod Fawr y Cardis

Mae trefnwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngheredigion 2010 yn torri tir newydd — nid plat fydd yna i godi arian at yr Ŵyl ond cyfres o chwech o jygiau hardd.

Maen nhw'n dangos golygfeydd o bob rhan o'r sir ac wedi eu creu gan un o brif artistiaid Cymru, sy'n golygu y byddan nhw'n drysorau i'r dyfodol.

Roedd y jygiau ar werth am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd — nifer cyfyngedig sy'n cael eu creu a'u pris yw £30 am un neu £160 am y gyfres gyflawn.

Lowri Davies o Aberystwyth sydd wedi eu creu — mae hi'n enwog am ei gwaith gyda cherameg a phorslen ac wedi ennill Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol am waith crefft.

Fe fu'n rhaid iddi fentro i ben clogwyn uwch y môr ac i lawr i geunant afon Teifi er mwyn creu'r darluniau sydd ar y llestri — pob un yn cynrychioli un o gylchoedd yr Urdd o fewn y sir.

"Un Llandysul oedd fwya' anodd," meddai Lowri, sy'n dweud ei bod yn falch o'r anrhydedd o gael gwneud y jygiau. "Roedd rhaid i fi ddringo i lawr at yr afon er mwyn cael yr ongl iawn i weld y bont."

Ond, yn ôl Cadeirydd Pwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod, Rhian Dafydd, roedd yr ymdrech yn werth chweil ac fe fydd y dewis o luniau — Craig Glais, Aberystwyth; Coleg Llanbed; Sgwâr Tregaron; Plasty Llanerchaeron; Llangrannog; a Phont Llandysul — yn apelio at bob Cardi.

"Rydyn ni'n falch iawn o'r jygiau," meddai. "Maen nhw'n drysorau bach ac yn gofnod unigryw a gwerthfawr o ymweliad Prifwyl yr Urdd gyda Cheredigion. Lowri Davies yw un o artistiaid ifanc mwya' addawol Cymru."

Fe fu Lowri'n ymgynghori gyda phwyllgorau lleol yr Eisteddfod ynghylch rhai o'r golygfeydd — a'i dewis hi oedd y gweddill.

Bydd y jygiau i'w gweld o Siop Inc, Aberystwyth ac maent yn fodlon cymryd archebion.




Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion 2010

Crëwyd gan Lowri Davies

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i rlant.

GWAITH GARDDIO

Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

GWESTY Tynycornel HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 25 Medi o dan lywyddiaeth y Cyng John Evans yn Neuadd Rhydypennau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Sir, Paul Hinge a Ray Quant. Araf iawn yw mater dyrus mabwysiadu ystad Maesafallen i ddod i ben, gyda'r Cyngor Sir yn llusgo traed yn araf. Awgrymodd un swyddog efallai y byddai'n bosibl i Gyngor Tirymynach gyfrannu tuag at y costau. Mae'n lwcus nad oedd ef yn y cyfarfod hwn! Roedd y Cyngor Sir yn gobeithio gweld y broblem yn cael ei datrys yn y dyfodol, a byddai cyfarfod cyhoeddus yn cael ei alw'n fuan. Ond cofier bod amser y Cyngor Sir yn wahanol i amser pawb arall.

Bu'r Clerc ynghyd â swyddog o'r adran ffyrdd a'r Cyng Ray Quant yn ymweld â rhai mannau yn yr ardal sy'n galw am sylw. Edrychwyd ar y ffordd rhwng Llangorwen a Bryncastell yn dilyn cwynion am or-yrru ar y ffordd yma. Awgrymwyd symud yr arwyddion 30mya ymhellach i mewn o bob pen i'r ffordd a gosod rhagor o farciau arafu arni. Awgrymwyd hefyd i symud yr arwydd 40mya ymhellach i'r gogledd o ben lôn Dolau. Gan fod gofid parhaol am ddiogelwch ar y ffordd drwy Bow Street, ac yn enwedig wrth ysgol Rhydypennau y bwriad yw gosod cyflymder gyrru i lawr i 20mya. Efallai y gellid cyflogi dyn/dynes lolipop wrth yr ysgol. Edrychwyd hefyd ar fynediad y Lôn Groes, gan ei bod weithiau'n amhosibl gweld y cerbydau yn dod i fyny o'r de. Gwelodd y swyddogion y sefyllfa, ond a deallwyd sy'n beth arall.

Disgwylir i'r coed sy'n gordyfu ar y ffordd fawr yn Bow Street gael eu torri yn fuan. Mynegwyd tipyn o gonsyrn am ddyfodol Ysgol Dop Rhydypennau — er nad yw o fewn y gymuned. Eto i gyd plant y gymuned hon oedd y mwyafrif yn yr ysgol ar hyd y blynyddoedd. Oherwydd y sefyllfa ariannol sydd ohoni nid oes lawer o ddim yn digwydd parthed ei gwerthu, er bod angen yr arian i helpu codi yr estyniad i'r ysgol bresennol. Mae'r cyngor wedi ysgrifennu i'r Adran Addysg/Cynllunio yn mynegi consyrn am golli cymeriad wyneb yr ysgol.

Unwaith eto, mae broblem cŵn yn baeddu llwybrau a chaeau chwarae yn yr ardal ac ar draeth Clarach yn peri gofid yn y gymuned. Gwneir cais am finiau arbennig ar gyfer y baw, ond yn gyntaf rhaid gwybod pwy sy'n eu casglu, a beth yw'r gost.

Ceisiadau cynllunio wedi eu caniatau. 1 Addasu fferm segur a darparu 4 uned wyliau ynghyd â hudai/llety gwersylla a chyfleusterau ategol yn Nantcellan, Clarach. 2 Arddangos arwyddion yn Garn House. 3 Gosod ceblau ffibr optig tan ddaear ar gyfer cyswllt data o Gampws Pen-glais i Gampws IBERS (IGER).

Cais newydd. Datblygiad anneddol, darparu gwasanaethau a thirlunio ar dir ger Cae'r Odyn, Bow Street. Tra yn cydnabod yr angen am dai, yn enwedig am dai fforddiadwy, a deallir bod 16 o dai i'w codi yma, mae'r Cyngor am ysgrifennu at yr adran gynllunio yn mynegi yn gryf y farn nad yw'r ardal am weld ail "Cae'r Odyn" yn digwydd yma, fel y digwyddodd rhai blynyddoedd yn ôl. Tai fforddiadwy i bobl lleol yw'r angen, ac nid bygythiad i gyfleusterau'r pentref.

Cwynwyd nad oedd neb yn gwagio y bin sbwriel sydd ym mhen uchaf y Lôn Groes, a bod angen bin sbwriel wrth Bont Wen, Maesceiro, lle mae cŵn yn dragwyddol faeddu'r llwybyr. Mae cwyn hefyd nad yw'r lori ysgubo ffyrdd wedi bod yn yr ystadau lleol ers tro byd. Bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Hydref.

## Llwybrau

Mae'n rhaid i mi gydnabod i fi elwa'n bersonol o arian Ewropeaidd yn ystod y misoedd diwetha.

Dwi wedi ymlwybro ar hyd rhannau o arfordir Ceredigion sydd newydd agor, a dwi hefyd wedi beicio ar hyd llwybrau Rheidol ac Ystwyth — llwybrau dymunol iawn ar ddiwrnod braf o hydref — sydd newydd agor, diolch i arian Ewropeaidd Amcan Un.

Ond pan ddaw hi'n fater o deithio ymarferol dwi braidd yn ddiamcan, a methu gweld fod Amcan Un nag amcanion Ieuan Wyn yn neud lot o wahaniaeth.

Wna i ddim teithio ar y beic i'r gwaith, er enghraifft, nes bydd y llwybr beic a godwyd dair blynedd yn ôl yn cael ei gwblhau. A dweud y gwir mae'r llwybr yn dal i orffen ar un o gorneli perycla canolbarth Cymru (ac oherwydd hunanoldeb rhyfeddol beicwyr yr oes hon, ma naw o bob deg beiciwr yn gwrthod defnyddio'r ychydig lwybr sydd yno).

Ac mae na sawl peth rhwystredig o ran y diffyg buddsoddi go iawn yn y system drafnidiaeth. O ran ffyrdd, ma Ieuan Wyn ei hun wedi cyfadde y bydd hi'n bum mlynedd arall nes cewn ni wared â'r goleuade traffig yn Ganllwyd, a ryw wella fan hyn fan draw fydd hi.

Mae'r rheilffyrdd hefyd mor drychinebus ag erioed. Alla i ddim amgyffred, er enghraifft, pam nad oes yna orsaf drenau yn Bow Street, sy'n bentre o ddwy fil o bobl, gyda rheilffordd yn mynd drwy'r canol. Mae bron pawb sy'n byw yno yn cymudo i Aberystwyth — tref sydd â phroblemau traffig a pharcio trychinebus.

A falle fod gwariant o £350 miliwn dros bum mlynedd yn swnio'n lot, ond o'i gymharu â buddsoddiadau gwledydd eraill dyw e ond megis piso dryw yn y môr.

Fues i yn Madrid yn ddiweddar a gweld fod na drên sy bellach yn gallu cyrraedd Barcelona mewn dwy awr a hanner (tipyn o gamp a hithau'n daith 400 milltir).

Yn y Swistir mae na dwnnel 21 milltir newydd ei agor sy'n mynd drwy'r Alpau, ar gost o £3.5 biliwn. Ac, wrth gwrs, ry'n ni'n gwybod i Iwerddon lwyddo i wneud bach mwy na chodi llwybre beics gydag arian Amcan 1.

Falle bod pethe wedi gwella o ran fy hamddena, ond pa mor braf bynnag yw llwybr Ystwyth, dwi dal i gael fy atgoffa mai llwybr rheilffordd i Gaerfyrddin oedd hwn ddegawdau yn ôl. A phetai'n ddewis rhwng y naill neu'r llall, fydden i'n ddigon parod i adael y beic yn y shed.

**Lefi Gruffudd**

# YSGOL PEN-LLWYN



Disgyblion Bl1 yn mwynhau y Diwrnod Gwobrwyo a'r Cyngherdd Ffarwelio




Y tîm pêl-droed: Gerallt, Oliver, Dylan, Keiran, Amy, Jo a Rhian

## Trip i fecws Morrisons

Ar y 24ain o Fedi bu dosbarth y babanod ym Mecws Morrisons. Mewn awr fer, fe gafodd y plant weld sut roedd cymysgu, pobi a phecynu bara. Gwelwyd pa gynhwysion a ddefnyddir gan arogli y burum drewllyd! Bu i'r plant fwynhau eu hunain yn arw, ac mae'r diolch yn fawr i'r cwmni am eu haelioni.

## Chwaraeon

Chwaraeom yng nghystadleuaeth pump bob ochr yr Urdd, a oedd yn cael ei gynnal yn Nghanolfan hamdden Plas-crug, Llanbadarn, sydd wrth ymyl Ysgol Penweddig.

Rydym yn chwarae llawer o bel-droed yn Ysgol Pen-llwyn. Mae llawer o'r bechgyn a rhai o'r merched yn chwarae'n aml yn yr ysgol.

Chwaraeom yn erbyn pump o dimau. Roedd yn brofiad cyffrous ac roedd yn llawer o hwyl wrth gynrychioli ein hysgol.

Fe enillom ddwy gem a cholli tair. Buom yn fuddugol yn erbyn ysgol Syr John Rhys a Llanafan.

Fe chwaraeom ni ein gorau glas a buom yn anffodus i golli'r dair gem, ond beth sy'n bwysig yw ein bod wedi rhoi o'n gorau wrth gynrychioli ein hysgol.

**Rhian James**



Becws Morrison



Y disgyblion yn canu yng Nghyngerdd Ffarwelio disgyblion Bl 6

inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion

13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Etholiadau

Bellach mae'r ysgol wedi cadarnhau, trwy bleidlais aelodau, dau bwyllgor pwysig iawn; 'Y Cyngor Ysgol' a'r 'Pwyllgor Eco'. Fel y soniwyd yn ddiweddar, mae aelodau'r ddau gyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion mewn amryw o agweddau ym mywyd yr ysgol.

### Canolfan y Celfyddydau

Yn ddiweddar treuliodd plant y Dosbarth Derbyn i fyny at blant Flwyddyn 4 ddiwrnod cyfan yng Nghanolfan y Celfyddydau. Pwrpas yr ymweliadau oedd mwynhau tasgau a gweithgareddau yn ymwneud â chelf gyfoes. Gan ei bod hi'n anodd weithiau i ddeall darluniau a syniadau celf gyfoes roedd Mrs Helen Jones wrth law er mwyn sicrhau arweiniaeth ac arbenigedd yn y maes. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mrs Jones am y trefniant._

### Clwb Dawnsio

Mae Rachel West, cyn ddisgybl o'r ysgol, yn parhau i gynnig sesiynau dawns i blant yr ysgol. Mae'r sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal ar ddydd Llun am hanner awr wedi tri. Mae'r plant yn mwynhau'r sesiynau yn fawr iawn.

### Gwasanaethau

Mae'r Parchedigion. Richard Lewis, . Andrew Lenny a. Wyn Morris bellach wedi cyfrannu i wasanaethau boreol yr ysgol yn ystod y tymor yma. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr.

### Chwaraeon

Mae tîmau pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol yn parhau i chwarae ar brynhawniau Gwener mewn cystadleuaeth swyddogol sydd wedi ei threfnu rhwng ysgolion y cylch. Tro Ysgol Llwyn-yr-eos oedd hi i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar.

Dyma'r canlyniadau:
Pêl droed:
Rhydypennau A — 3 (Siôn Ewart 2, Hannah Miles); Llwyn-yr-eos A — 4
Rhydypennau B — 2 (Gruffudd Owen 2) Llwyn-yr-eos B — 1



'Y Pwyllgor Eco'-(o'r chwith)-Megan Jackson, Jordan Jones, Hannah Lee Bowen, Mirain Dafydd, Rhys Huw, Daniel Rees, Jac Williams, Cameron Saunders


Mrs Helen Jones yn trafod agweddau o ddarluniau 'Celf Gyfoes' yng nghanolfan y celfyddydiau.



'Y Cyngor Ysgol'(cefn o'r chwith) Misha Harwood, Kelly Harper, Elis Lewis, Gruffudd Owen (blaen o'r chwith) Trystan Griffiths, Glesni Morgan, Lowri Scott, Shaun Jones

Pêl rwyd:
Rhydypennau A — 6 ( Hannah Lee 3, Lucy Ankin 3), Llwyn-yr-eos 6
Rhydypennau B — 3 (Rachel Howard 2, Lorna Harper 1) Llwyn-yr-eos 0

Mae'r tîm hoci bellach yn chwarae ar nos Wener, ac y maent wedi cael dechreuad da i'r tymor. Cafodd Rhydypennau A gêm gyfartal yn erbyn Ysgol Padarn Sant-2 gôl yr un (Rhys Huw a Elis Lewis) a churo Ysgol Llanilar o 7 gôl i 3 (Rhys Huw 4, Elis 3). Ac er fod tîm B eto i ennill gêm, maent yn chwarae hoci addawol iawn.

### Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Treuliwyd y noson gyntaf yn mwynhau sesiwn o chwaraeon dan ofal y Prifathro a'r Dirprwy. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod gweddill y flwyddyn.

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

## YSGOL CRAIG-YR-WYLFA

### Plant Newydd

Mae'r chwe phlentyn newydd a ddechreuodd nôl ym mis Medi wedi ymgartrefu'n dda yn yr ysgol. Eu henwau yw Jac, Lauren, Joshua, Katy, Tiffany a Kitty.

### Clwb Brecwast

Mae'r ysgol yn cynnig clwb brecwast am ddim i bob plentyn ers dechrau'r tymor. Mae brecwastau ar gael rhwng 8.15 ac 8.45 pob bore ac hyd yn hyn cafwyd ymateb da iawn gyda dros 20 o blant yn mynychu'n rheolaidd pob bore.

### Chwaraeon

Maer'r tymor pêl-droed a pêl-rwyd wedi ail gychwyn gyda'r gêmau rhwng ysgolion y cylch yn cymryd lle pob prynhawn dydd Gwener. Aeth llond bws o blant draw i Ysgol Comins-coch ar gyfer gêm gynta'r tymor ond colli fu hanes y ddau dim. Diolch i ysgol Comins-coch am y croeso.
Mae tîm y pentref, Bois y Graig, hefyd wedi ail ddechrau am y tymor a dymunwn pob lwc iddynt. Mae'n dda clywed bod yna dîm i'r plant dan 7 hefyd wedi ei ffurfio gyda'r enw Bois Bach y Graig.

Mae'n braf nodi bod 3 o ddisgyblion yr ysgol yn rhan o Academi Wrecsam yn Aberystwyth. Mae Dion, Andrew a Luke yn ymarfer gyda'r academi yn wythnosol ac yn cael chwarae yn erbyn sawl tîm o'r uwch-gynghrair pêl-droed.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch blynyddol yr ysgol yn y neuadd ar Ddydd Mercher yr 16eg o Hydref. Ein thema eleni oedd 'Helpu Plant Ar Draws Y Byd'. Soniwyd am apêl 'Schoolchildren for Children' a byddwn yn codi arian i ysgolion yn yr Affrig trwy cynnal taith gerdded noddedig cyn hanner tymor.

### Campau'r Ddraig a'r Urdd

Mae'r ddau glwb ar ôl ysgol wedi ail-gychwyn ers tua pedair wythnos ac mae'n braf gweld llawer o'r plant yn mynychu'r ddau glwb ar nos Fercher a nos Iau.

### Llwyddiant Cerddorol

Mae'n braf gweld dros ugain o blant yr ysgol yn derbyn gwersi cerdd gan yr athrawon teithiol sydd yn galw yn yr ysgol yn wythnosol. Maent yn cael y cyfle i chwarae o flaen yr ysgol yn rheolaidd a braf yw gweld rhai o'r goreuon yn mynd ymlaen i chwarae ar lefel cylch a sirol. Mae Emily Evans, Deri Ashford, Isaac Williamson Evans ac Erin Hassan eisioes wedi cael gwahoddiad i ymuno â Cherddorfa Gogledd Ceredigion a byddwn yn edrych 'mlaen i'w gweld yn perfformio yn y Neuadd Fawr yn hwyrach yn y flwyddyn.

### Myfyrwraig o'r Almaen

Ers dechrau'r tymor mae Ricarda Grabesch, sydd yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Rostock yn yr Almaen, wedi bod yn helpu yn yr ysgol. Mae'n astudio Saesneg a ieithoedd Celtaidd yn y coleg ac yn edrych ar sut mae ysgolion cynradd yn dysgu ieithoedd yma yng Nghymru. Mae hefyd wedi bod yn gyfle i blant ac athrawon Craig yr Wylfa dysgu tipyn o Almaeneg.

### Brysiwch Wella!

Dymunwn adferiad buan i ddwy aelod o'r staff sydd wedi bod i ffwrdd o'r ysgol ers peth amser. Mae'r plant a'r staff yn gweld eisiau Miss Lynwen Herbert, athrawes blwyddyn 3 a 4, a Mrs Yvonne Hutton, goruchwylwraig amser cinio, ac yn gobeithio y bydd y ddwy nôl yn fuan.

## Taith Edward Llwyd i ben Disgwylfa Fawr

I ben Disgwylfa Fawr, ger Ponterwyd, yr aeth taith Edward Llwyd, ddydd Sadwrn Medi 20fed. Daeth rhyw ugain ohonom ynghyd dan heulwen braf haf bach Mihangel ger Hirnant, Ponterwyd, i ddechrau ar y daith a addawai fod rhwng chwech ac wyth milltir.

Yno'n disgwyl amdanom roedd Gwyn Jones, Llys Maelgwyn, Bow Street, ein harweinydd am y dydd. Yn ôl ei drefnusrwydd arferol roedd wedi paratoi nodiadau manwl ar ein cyfer. I ategu'r rheiny byddai'n ein galw at ein gilydd bob hyn a hyn i rannu rhagor o'i stôr ddihysbydd o wybodaeth am y mynydd a'i bobl, yn ffermwyr a bugeiliaid.



Clywsom am Thomas Richards a anwyd yn Hirnant ac a aeth yn ficer Darowen ym Maldwyn; yna wrth fynd ymlaen at yr argae clywsom am Hyddgen a cherrig cyfamod Owain Glyndŵr; am waith y Dr C.S. Briggs, yn 1984, yn darganfod 32 o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol, yn garneddau o Oes yr Efydd ac yn dai a chytiau hir canoloesol, a hynny'n profi bod poblogaeth uwch ar y yr ucheldir nag a feddyliwyd erioed o'r blaen; ac am y cloddio ger Aber Camddwr yn 1986 pryd cafwyd pwll yn llawn golosg a darnau o lestri o Oes yr Efydd.

Esboniodd Gwyn Jones fel roedd llwyfandir Blaenrheidol gynt wedi ei rannu rhwng cymydau Perfedd a Genau'r-glyn yng Ngheredigion a Chyfeiliog ym Maldwyn. Yn sŵn yr hanesion am y lluestau a'r cysylltiad rhwng y mwynwyr a'r bugeiliaid - y mwynwyr yn llochesu mewn lluestau a'r bugeiliaid yn cael marchnad i'w nwyddau yn y gweithiau mwyn, - a sylwi mewn rhyfeddod ar harddwch yr ehangder o dir agored o'n hamgylch, cyrhaeddwyd pen y mynydd, rai ohonom gyda mwy o ymdrech nag eraill!

Does dim profiad brafiach na chyrraedd copa, yn enwedig yng nghwmni rhywun sy'n gallu esbonio yr hyn sydd i'w weld oddi yno. Dyna sy'n dda yn nheithiau Cymdeithas Edward Llwyd ble bynnag maen nhw'n digwydd, maen nhw'n llawn gwybodaeth leol a diddorol. Ar ôl seiat fer ar gopa Disgwylfa dyma ddisgyn yn ôl at y ceir ger Hirnant, a darganfod, ar ddiwedd y daith, diolch i beiriant GPS un o'r cerddwyr, ein bod wedi cerdded 9.8 milltir, ac wedi mwynhau pob troedfedd o'r daith!

# TASG Y TINCER

**Gobeithiwn gael llun o Elain erbyn y rhifyn nesaf**

Ddaru chi fwynhau'r diwrnodau braf gawsom ni yn ystod mis Medi? Roedd yn dda i'w cael, am fod yr haf wedi bod yn reit ddiflas. Efallai bod rhai ohonoch wedi bod ar y traeth yn Ynys-las, neu'r hel mwyar duon o'r cloddiau tra bod yr haul yn gwenu, neu'n mynd ar drip ar y penwythnos. Beth sy'n digwydd y mis hwn? Bydd Calan Gaeaf yma cyn hir — rwy'n edrych ymlaen at eich gweld yn eich gwisgoedd gwrachod a bwganod, a chofiwch brynu pwmpen mewn da bryd.

Wel, dim ond dwy fentrodd ar dasg mis Medi, sef **Elain Donnelly**, Tŷ Capel, Goginan, a **Ffion Williams**, Bryn Rheidol, Capel Bangor. Roedd lluniau'r ddwy ohonoch yn arbennig, ac roeddwn yn hoff o lygaid glas llew Ffion! Ti, Elain sy'n sy'n cael y wobr y tro hwn. Roedd dy lun o Llew, sydd i'w weld ar 'Cyw' ar S4C, yn lliwgar iawn, gyda'i streips oren a'i glustiau a'i drwyn coch. Da iawn ti. Gobeithio bydd nifer ohonoch yn lliwio llun y mis hwn!

Faint ohonoch fuodd yn dilyn y Gêmau Olympaidd o Beijing dros yr haf, a beth am y Gêmau Para-olympaidd? Ddaru chi fwynhau'r seremonïau agor a chau? Roedden nhw'n lliwgar dros ben! Roeddwn i wrth fy mod yn gwylio'r rasys beicio o'r Felodrôm, a'r rasys 100 medr. A beth am y nofio a'r rhwyfo? Roedd y marathon yn edrych yn anodd iawn yn y gwres mawr. Mi wnaeth Prydain yn arbennig o dda. Pryd mae'r Gêmau nesaf tybed? Ie siwr iawn, mewn 4 blynedd, yn 2012. Mae'n siwr eich bod i gyd yn gwybod pa ddinas fydd yn gartref i'r Gêmau nesaf — Llundain wrth gwrs! Efallai bod rhai ohonoch yn gobeithio mynd yno i wylio rhai o'r campau. Tybed faint o Gymry fydd yn ennill medalau?

A wyddoch chi sawl cylch sydd i'w weld ar symbol y **Gêmau Olympaidd**? Ie, 5! A pha liwiau yw'r cylchoedd? Glas, melyn, du, gwyrdd a choch. Bydd y symbol yn gant oed pan ddaw'r Gêmau i Lundain, a dyn o'r enw Baron Pierre de Coubertin wnaeth lunio'r symbol. Wyddoch chi fod pobl Tseina wedi rhoi enwau ar y 5 cylch, Beibei (sef gair pobl Tseina am 'pysgodyn'), Jinging, ('panda'), Huanhuan (y fflam Olympaidd), Yinging (sef 'gafr') a Nini ('gwennol'). Y mis hwn, beth am liwio'r llun o Beibei? Dyma gliw i chi - cofiwch mai pysgodyn yw ystyr yr enw 'Beibei', sef y cylch glas o fewn y symbol, felly bydd angen digon o'r lliw hwnnw arnoch!

Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Tachwedd 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed          Rhif ffôn

TAFARN TYNLLIDIART
Tŷ Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr
(duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets
plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi,
llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 312 | HYDREF 2008